# Gorsafoedd radio newydd arfaethedig DAB+ y BBC a newidiadau arfaethedig i Radio 5 Sports Extra

Penderfyniadau terfynol

**Datganiad**

Cyhoeddwyd 2 Gorffennaf 2025

I gael rhagor o wybodaeth am y ddogfen hon, ewch i ofcom.org.uk

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ........ 3
2. Gwerth cyhoeddus ........ 5
3. Ein hasesiad o effeithiau posibl ar y farchnad ........ 14
4. Penderfyniadau terfynol ........ 32
5. Ein penderfyniadau ar amodau’r drwydded weithredu ........ 34

# 1. Trosolwg

1.1 Yn dilyn profion budd y cyhoedd, mae'r BBC wedi cynnig newidiadau i'w wasanaethau radio, sef:

- lansio pedair gorsaf gerddoriaeth DAB+ newydd: Radio 1 Dance, Radio 1 Anthems, estyniad Radio 2 (sy'n canolbwyntio ar gerddoriaeth y 50au, y 60au a'r 70au) a Radio 3 Unwind
- ymestyn oriau darlledu Radio 5 Sports Extra, gan ei newid o wasanaeth rhan-amser sy'n cynnig chwaraeon byw yn unig, i wasanaeth sy'n darlledu bob dydd rhwng 9am a 7pm.

1.2 Rydym bellach wedi cynnal asesiadau llawn o gystadleuaeth y BBC ar y cynigion. Ym mis Ebrill, fe wnaethom ymgynghori ar y canlynol:

- ein penderfyniad dros dro i gymeradwyo lansio tair o'r pedair gorsaf gerddoriaeth ond i beidio â chymeradwyo lansio'r bedwaredd – yr estyniad i Radio 2
- ein penderfyniad dros dro i beidio â chymeradwyo ymestyn oriau darlledu Radio 5 Sports Extra; ac
- ein bwriad i beidio â gosod amodau Trwydded Weithredu newydd ar y BBC pe baem yn cymeradwyo'r tri gwasanaeth DAB+ newydd.

1.3 Daeth ein hymgynghoriad i ben 14 Mai 2025. Cawsom 29 o ymatebion i'r ymgynghoriad, 22 ohonynt gan unigolion a saith gan sefydliadau. Rydym wedi cyhoeddi pob ymateb nad oeddent yn rhai cyfrinachol ar ein gwefan.[1]

1.4 Ar ôl cael mewnbwn gan randdeiliaid ar ein penderfyniadau dros dro, rydym bellach wedi gwneud ein penderfyniadau terfynol.

### Ein penderfyniadau – yn gryno

Mae'r BBC yn wynebu her barhaus o ddarparu cynnwys diddorol a pherthnasol i bob cynulleidfa, ar adeg o fwy o ddewis a chystadleuaeth gan ddarparwyr eraill. Nod cynigion y BBC yw gwneud mwy ar gyfer cynulleidfaoedd iau a C2DE sy'n cael llai o werth gan y BBC ar hyn o bryd, a diwallu hwyliau ac anghenion cynulleidfaoedd modern yn well.

Mae gan y BBC ddyletswydd i wasanaethu pob cynulleidfa ar draws y DU gyda chynnwys unigryw o ansawdd uchel o'r DU. Rydym yn croesawu nod y BBC o gysylltu â chynulleidfaoedd y mae angen iddo wneud mwy i'w cyrraedd, ac rydym yn cefnogi ei ymdrechion i arloesi.

**Lansio pedair gorsaf radio DAB+ newydd**

Rydym wedi dod i'r casgliad y **caiff y BBC fwrw ymlaen** i lansio tri o'r gwasanaethau hyn fel gorsafoedd DAB+: Radio 1 Dance, Radio 1 Anthems a Radio 3 Unwind. Daethom i'r casgliad y byddai'r gwasanaethau'n cynnig rhywfaint o werth cyhoeddus, ac roeddem o'r farn bod hyn yn ddigon i gyfiawnhau'r effaith gyfyngedig ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

[1] DOLEN

Bydd y gwasanaethau hyn yn dod o dan amodau presennol y drwydded weithredu; rydym wedi penderfynu peidio â chyflwyno amodau newydd ar gyfer y gwasanaethau hyn ar hyn o bryd.

Rydym wedi dod i'r casgliad **na chaiff y BBC fwrw ymlaen** â'i fwriad arfaethedig i lansio estyniad ar gyfer Radio 2. Roeddem o'r farn y byddai'r cynnig yn darparu rhywfaint o werth cyhoeddus, ond nad oedd hyn yn ddigon i gyfiawnhau'r effaith sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, sy'n cynnwys y potensial i leihau cymhellion buddsoddi ar gyfer gweithredwyr radio masnachol.

**Yr estyniad arfaethedig i oriau Radio 5 Sports Extra**

Rydym wedi dod i'r casgliad dros dro **na chaiff y BBC fwrw ymlaen** â'r newid hwn. Daethom i'r casgliad y byddai'r estyniad arfaethedig yn darparu rhywfaint o werth cyhoeddus, er enghraifft drwy ehangu faint o chwaraeon sydd ar radio llinol. Fodd bynnag, nid oeddem yn credu bod hyn yn ddigon i gyfiawnhau'r effaith sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, yn enwedig ar rwydwaith talkSPORT a darpariaeth fasnachol gwasanaethau radio chwaraeon.

# 2. Gwerth cyhoeddus

2.1 Yn yr ymgynghoriad ar asesiadau cystadleuaeth y BBC, fe wnaethom gynnal adolygiad o asesiadau gwerth cyhoeddus y BBC, fel y nodir yn y dogfennau Prawf Budd y Cyhoedd. Rydym wedi ystyried sut byddai'r cynigion yn cyflawni Cenhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC, a sut byddent yn darparu gwerth personol, cymdeithasol ac i ddiwydiant.

2.2 Yn yr adran hon rydym yn crynhoi ymatebion rhanddeiliaid i'n hadolygiad o asesiad gwerth cyhoeddus y BBC ac rydym yn egluro ein casgliadau terfynol yng ngoleuni'r ymatebion hynny.

## Gorsafoedd radio cerddoriaeth – gwerth cyhoeddus ar y cyd

### Ein safbwyntiau dros dro

2.3 Roeddem yn cydnabod bod y gorsafoedd cerddoriaeth arfaethedig yn gyfle i'r BBC adeiladu ar ei gysylltiadau presennol â chynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol (cynulleidfaoedd iau a C2DE). Fodd bynnag, roeddem hefyd o'r farn bod rhywfaint o ansicrwydd ynghylch pa mor effeithiol fyddai'r pedair gorsaf o ran darparu ar gyfer y cynulleidfaoedd hyn, gan nodi nad oedd y BBC wedi darparu unrhyw fodelu ar gyrhaeddiad y gorsafoedd arfaethedig ymysg cynulleidfaoedd iau a C2DE. Fe wnaethom hefyd ddweud y gallai gwerth Radio 1 Dance ('R1D'), Radio 1 Anthems ('R1A') a Radio 3 Unwind ('R3U') i gynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol fod yn gyfyngedig o ystyried amcangyfrif y BBC o gynnydd bach yn lefelau gwrando'r gorsafoedd.

2.4 Roeddem o'r farn y gallai'r pedair gorsaf arfaethedig ddod â rhywfaint o werth cymdeithasol, gan gynnwys drwy gynrychioli amrywiaeth eang o artistiaid ac elfennau fel cynnwys sy'n canolbwyntio ar fyfyrdod, ond nodwyd ei fod yn debygol o fod yn fwy cyfyngedig na'r gwerth cyhoeddus net 'sylweddol' a bennwyd gan y BBC.

2.5 Roeddem hefyd yn croesawu ymrwymiad y BBC i gomisiynu cynnwys sain gan amrywiaeth o gynhyrchwyr ledled y DU, gan ddweud y byddai rhywfaint o werth i'r diwydiant drwy gomisiynau newydd ar gyfer estyniad Radio 2 a mwy o gyrhaeddiad i gomisiynau ffrydiau Sounds. Fodd bynnag, fe wnaethom nodi bod gwerth net y diwydiant o ran comisiynau'r gorsafoedd newydd arfaethedig yn debygol o fod yn isel. Y rheswm am hyn yw bod y BBC eisoes yn comisiynu rhaglenni ar gyfer ffrydiau Sounds yn unig (ar gyfer R1D, R3U a R1A) ac mae'n ailflaenoriaethu cyllid presennol gan BBC Sounds a gorsafoedd radio rhwydwaith y BBC i fuddsoddi yn y gorsafoedd cerddoriaeth newydd.

### Ymatebion rhanddeiliaid:

2.6 Cyrraedd cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan y BBC: Cyfeiriodd y BBC at amrywiaeth o dystiolaeth a ddefnyddiwyd i lywio ei gynigion ac a oedd, yn ei farn ef, yn fwy ystyrlon na "thybiaethau modelu damcaniaethol wrth ddadansoddi'r defnydd." Dywedodd fod y gorsafoedd radio arfaethedig ond yn rhan o'i strategaeth i wella darpariaeth ar gyfer cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, ac roedd yn anghytuno bod yr oriau gwrando a amcangyfrifwyd

ar gyfer R1A a R1D yn isel, gan nodi y byddai'r amcangyfrif o'r gwrando ar y gorsafoedd arfaethedig ymysg y 10 estyniad brand uchaf.[2]

2.7 Roedd y BBC yn poeni bod ein hasesiad yn awgrymu bod gwerth cyhoeddus ei gynigion yn gyfyngedig oherwydd bod radio masnachol neu wasanaethau eraill eisoes yn gwasanaethu'r grwpiau cynulleidfa hyn. I'r gwrthwyneb, mynegodd Radiocentre bryderon am y BBC yn targedu cynulleidfaoedd y mae'n dweud eu bod "yn cael eu gwasanaethu'n dda gan radio masnachol". Nododd fod ei ymchwil Kantar wedi canfod bod llai nag un ymatebydd o bob pump yn credu bod estyniadau'r BBC yn swnio'n wahanol i orsafoedd presennol, gyda'r mwyafrif helaeth yn nodi bod y math hwn o wasanaeth eisoes yn cael ei gynnig gan radio masnachol.[3]

2.8 Gwerth i'r diwydiant: Pwysleisiodd y BBC ei "ymrwymiad cryf i gefnogi'r economi greadigol ledled y DU" a dywedodd y byddai'r gorsafoedd radio hyn yn cyfrannu at ei ymrwymiad i sicrhau bod 50% o'i wariant ar radio rhwydwaith a cherddoriaeth y tu allan i Lundain erbyn 2027/8. Roedd yn nodi y byddai cyfran sylweddol o gomisiynau newydd ar gyfer pob un o'r rhwydweithiau, gyda llawer yn cael eu cynhyrchu gan grewyr annibynnol, y tu allan i Lundain a ledled y DU.[4]

## Ein hymateb:

2.9 Cyrraedd cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan y BBC: Mae gan y BBC ddyletswydd i wasanaethu pob cynulleidfa ar draws y DU gyda chynnwys unigryw o ansawdd uchel o'r DU. Mae angen iddo gyrraedd cynulleidfaoedd ledled y DU, a pharhau i fod yn berthnasol iddynt, er mwyn darparu gwerth cyhoeddus. Mae ein hasesiad wedi ystyried y grwpiau cynulleidfa sy'n cael eu targedu gan y cynnig, gan gynnwys mewn perthynas â sut mae'r BBC yn cyflawni Diben Cyhoeddus Pedwar.[5]

2.10 Darparodd y BBC amrywiaeth eang o dystiolaeth i gyfrannu at ei gynigion. Roedd y dystiolaeth hon yn helpu i lywio ein penderfyniadau dros dro, gan gynnwys ymchwil ansoddol a meintiol i gynulleidfaoedd a oedd yn rhoi rhyw arwydd o'r cynulleidfaoedd a allai wrando ar y gwasanaeth. Rydym yn dal o'r farn y gallai'r BBC fod wedi mynd â'i ddadansoddiad ymhellach drwy ystyried hyd a lled y gwrando gan grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol.

2.11 Rydym yn dal i gredu y gallai'r gwerth i gynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol fod yn gyfyngedig. Mae'r amcangyfrif o lefelau gwrando R1D, R1A a R3U yn isel o'i gymharu â'r lefelau gwrando ar eu gorsafoedd 'rhiant', BBC Radio 1 a BBC Radio 3.[6] Fodd bynnag, rydym yn croesawu nod y BBC o ddatblygu ei wasanaethau i gyrraedd cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol fel un rhan o strategaeth ehangach i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y grwpiau hyn a helpu i sicrhau ei gynaliadwyedd yn y tymor hir.

---

[2] Y BBC, ymateb i'n penderfyniad dros dro, tt. 3-5.

[3] Ymateb y BBC i'n penderfyniad dros dro, t 4; Radiocentre, ymateb i'n penderfyniad dros dro, t. 2.

[4] Ymateb y BBC i'n penderfyniad dros dro, t. 8.

[5] Mae Diben Cyhoeddus 4 yn mynnu bod y BBC yn "adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig'.

[6] Roedd y BBC yn amcangyfrif 4.9 miliwn awr o wrando bob wythnos ar R1D, 3.5 miliwn awr o wrando ar R1A ac 1.2 miliwn awr o wrando ar R3U. Mewn cymhariaeth, roedd cyfanswm cyfartalog y gwrando wythnosol ar Radio 1 yn 49.4 miliwn awr yn Ch1 2025 ac roedd cyfanswm Radio 3 yn 15.8 miliwn awr yn ôl ffigurau diweddaraf RAJAR.

2.12 Mewn ymateb i safbwyntiau'r BBC a Radiocentre ynghylch targedu cynulleidfaoedd sy'n cael eu gwasanaethu gan radio masnachol, mae ein hasesiad yn cydnabod bod angen i'r BBC wasanaethu pob cynulleidfa, a bydd hyn yn cynnwys cystadlu â gwasanaethau masnachol. Mae'r BBC yn gallu darparu gwerth cyhoeddus – hyd yn oed mewn mannau sydd eisoes yn cael eu gwasanaethu gan radio masnachol – os yw'n cynnig cynnwys sy'n amlwg yn unigryw. Dim ond un elfen yw'r cymariaethau â darparwyr eraill yn ein hasesiad o natur unigryw a sut mae'r BBC yn cyflawni Diben Cyhoeddus 3: dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol, unigryw ac o'r ansawdd gorau.[7] Wrth ystyried natur unigryw, nid ydym yn edrych ar raglenni unigol na rhannau o'r dydd, rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'r BBC yn cyfrannu at ei natur unigryw yn gyffredinol. Mae ein dull o ran gwerth cyhoeddus hefyd yn cydnabod bod gwasanaethau eraill (y BBC a'r tu allan i'r BBC) hefyd yn darparu gwerth cyhoeddus, ac felly'r hyn sy'n berthnasol yw'r newid cyffredinol mewn gwerth cyhoeddus o ganlyniad i'r cynnig (hy y gwerth cyhoeddus net).[8]

2.13 Gwerth i'r diwydiant: Rydym yn croesawu ymrwymiad y BBC y bydd cyfran sylweddol o gomisiynau newydd yn cael eu gwneud ac rydym yn cydnabod y bydd y gorsafoedd hyn yn cael eu cynnwys yn nharged gwariant y BBC ar radio a wneir y tu allan i Lundain. Fodd bynnag, rydym yn dal o'r farn bod gwerth net y gorsafoedd hyn i'r diwydiant yn debygol o fod yn gyfyngedig, o ystyried bod y BBC yn ailflaenoriaethu'r cyllid presennol gan BBC Sounds a BBC Radio a'i fod eisoes yn comisiynu rhaglenni ar gyfer ffrydiau BBC Sounds.

# Radio 1 Dance, Radio 1 Anthems a Radio 3 Unwind

## Ein safbwyntiau dros dro

2.14 Ein barn dros dro oedd y byddai R1A, R1D a R3U yn cynnig rhywfaint o werth cyhoeddus, gan gynnwys rhywfaint o werth unigol, gwerth cymdeithasol a gwerth i'r diwydiant. Er enghraifft, byddai'r gorsafoedd yn cynnwys rhai elfennau unigryw ac yn cefnogi'r diwydiant cerddoriaeth a'r biblinell dalent, a byddai R1A a R3U yn darparu rhywfaint o gynnwys sy'n cefnogi dysgu anffurfiol.

2.15 Fe wnaethom ddweud ein bod yn siomedig bod y BBC wedi dewis peidio â chynnwys newyddion ar R1D a R1A o ystyried bod y gorsafoedd hyn yn canolbwyntio ar gynulleidfaoedd iau a C2DE, ac roeddem o'r farn y gallai fod rhywfaint o werth cymdeithasol negyddol i wrandawyr sy'n newid o orsafoedd gyda newyddion.

## Ymatebion rhanddeiliaid

2.16 Gwerth cyhoeddus cyffredinol: Roedd y BBC o'r farn y byddai'r gorsafoedd yn darparu gwerth cyhoeddus sylweddol, yn enwedig i gynulleidfaoedd iau a C2DE, gydag elfennau unigryw a chefnogaeth i'r diwydiant cerddoriaeth. Roedd y Fforwm Rheolwyr Cerddoriaeth hefyd o'r farn y byddai gwerth cyhoeddus cryf i'r gorsafoedd arfaethedig. Fodd bynnag, roedd Radiocentre o'r farn nad oedd R1D, R1A na R3U yn unigryw a'u bod ond yn debygol o gynhyrchu gwerth cyhoeddus cynyddrannol cyfyngedig. Roedd hefyd o'r

[7] Wrth asesu natur unigryw, rydym yn ystyried y pum 'piler' fel y nodir yn y cytundeb fframwaith: (i) y gymysgedd o wahanol genres ac allbwn; (ii) ansawdd yr allbwn; (iii) faint o allbwn gwreiddiol a gynhyrchir yn y DU; (iv) lefel y risg a gymerir, arloesedd, her ac uchelgais creadigol; ac (v) yr amrywiaeth o gynulleidfaoedd y mae'n eu gwasanaethu.

[8] Ofcom, Canllawiau ar gyfer asesu effaith y newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC paragraffau 5.28 i 5.29.

farn, mewn llawer o achosion, bod darparu gwerth ychwanegol yn seiliedig ar ymddiriedaeth i raddau helaeth yn hytrach nag yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth. Roedd UK Music yn cytuno'n rhannol ag asesiad Ofcom o werth cyhoeddus ond roedd o'r farn y dylid cynyddu neu ychwanegu rhai ymrwymiadau (er enghraifft, cynyddu cyfran y gerddoriaeth gan artistiaid o'r DU ar R3U o 25% i draean ac ychwanegu ymrwymiad penodol i gyfaint cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth sydd wedi'i recordio'n arbennig ar R1D).

2.17 Roedd rhai ymatebwyr unigol yn cytuno'n fras â'n casgliadau dros dro ar werth cyhoeddus y tair gorsaf,[9] er bod un unigolyn wedi dweud bod y gwasanaethau arfaethedig mewn fformat tebyg i orsafoedd masnachol, felly dylid eu gwrthod.[10]

2.18 Dysgu anffurfiol: Roedd y BBC o'r farn y byddai'r gorsafoedd yn cyfrannu at ddysgu anffurfiol ond roedd yn anghytuno â'n barn y gallai gwerth addysgol R1D fod yn gyfyngedig oherwydd yr amserlen sy'n cael ei harwain gan gerddoriaeth, gan ddweud bod rhaglenni cerddoriaeth wedi'u curadu sydd â lefelau siarad isel yn gallu bod yn llawn gwybodaeth.[11]

2.19 Newyddion: Dywedodd y BBC nad yw'n glir pam y byddai bodolaeth newyddion ar wasanaethau eraill yn effeithio ar werth cyhoeddus eu cynigion ac nad yw llawer o'r estyniadau brand y mae'r BBC yn fwyaf tebygol o gystadlu â nhw yn cynnwys newyddion. Roedd y BBC yn ailadrodd y byddai cynnwys newyddion yn amharu ar brofiad gwrando gorsafoedd sy'n seiliedig ar hwyliau yn bennaf. Dywedodd hefyd ei fod yn darparu cynnwys newyddion helaeth ar draws bron pob un o'i bortffolios radio ac mae'n canolbwyntio ei weithgareddau ar gyflwyno newyddion i gynulleidfaoedd iau drwy wasanaethau ar-lein. Roedd Radiocentre o'r farn bod diffyg newyddion yn groes i gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus y BBC.[12]

## Ein hymateb

2.20 Gwerth cyhoeddus cyffredinol: Rydym yn dal o'r farn y byddai R1A, R1D a R3U yn cynnig rhywfaint o werth cyhoeddus ac yn cynnwys elfennau unigryw. Rydym yn cydnabod awgrymiadau i'r BBC gynyddu ei ymrwymiadau mewn meysydd penodol, ond rydym o'r farn bod y BBC wedi gwneud nifer o ymrwymiadau clir (er enghraifft mewn perthynas â chyfrannau cerddoriaeth newydd, traciau unigryw a thraciau gan artistiaid o'r DU), felly nid oes angen rhagor o ymrwymiadau ar hyn o bryd.

2.21 **Dysgu anffurfiol:** Rydym yn cydnabod pwynt y BBC am ba mor bwysig yw curadu a chyd-destun mewn rhaglenni cerddoriaeth. Er ein bod o'r farn y byddai R1D a R3U yn cyfrannu rhywfaint at ddysgu anffurfiol gyda fformatau fel "Pete Tong's Essential History of Dance Music", mae'n ymddangos bod y mathau hyn o raglenni yn cyfrif am gyfran gyfyngedig o amserlen arfaethedig R1D. Ar y sail hon, rydym yn dal o'r farn y gallai gwerth addysgol R1D fod yn gyfyngedig.

2.22 Newyddion: Rydym yn nodi safbwynt Radiocentre bod diffyg newyddion yn groes i gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus y BBC. Fodd bynnag, er bod darpariaeth newyddion wrth

[9] Aelod o'r cyhoedd 2, ymateb i'n penderfyniad dros dro, t. 1; Chris Woods, ymateb i'n penderfyniad dros dro; ymateb Luke Graham i'n penderfyniad dros dro.
[10] Aelod o'r cyhoedd 1, ymateb i'n penderfyniad dros dro.
[11] Y BBC, ymateb i'n penderfyniad dros dro, tt. 6-7.
[12] Y BBC, ymateb i'n penderfyniad dros dro, tt 7-8; Radiocentre, ymateb i'n penderfyniad dros dro, t. 2.

galon cylch gwaith y BBC, a'n bod yn dal o'r farn bod y BBC wedi colli cyfle i gynyddu cyrhaeddiad newyddion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, nid oes gofyniad penodol i'r BBC ddarparu newyddion ar ei holl orsafoedd radio. Nid ydym yn gyfrifol am bennu strategaeth y BBC a mater i'r BBC yw arwain ar sut mae'n sicrhau bod ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus yn cael eu cyflawni'n effeithiol. Fel y nodir yn adran 5, rydym yn disgwyl i'r BBC adrodd gyda'i adroddiad blynyddol ar ei ymdrechion i wella cyrhaeddiad ei gynnwys newyddion ymysg cynulleidfaoedd iau a C2DE ar draws ei wasanaethau, gan gynnwys ar lwyfannau ar-lein.

2.23 Er ein bod yn deall pwynt y BBC nad yw llawer o estyniadau brand yn cynnwys newyddion, rydym yn dal o'r farn y gallai fod rhywfaint o werth cymdeithasol negyddol i wrandawyr sy'n newid i R1D, R1A a R3U o orsafoedd eraill sy'n darparu newyddion, yn fasnachol (gan gynnwys rhai estyniadau brand) ac i radio'r BBC.[13] Gall newyddion ddarparu gwerth cymdeithasol drwy feithrin cyfranogiad gweithredol a gwybodus yn y broses ddemocrataidd; efallai na fydd y gwrandawyr hyn yn dod ar draws gymaint o newyddion radio o ganlyniad i newid i'r gorsafoedd newydd.

# Estyniad Radio 2

## Ein safbwyntiau dros dro

2.24 Roeddem o'r farn y byddai R2E yn cynnig rhywfaint o werth cyhoeddus. Byddai'n targedu gwrandawyr C2DE hŷn, yn cynnwys 30% o gynnwys llafar (gan gynnwys bwletinau newyddion rheolaidd a rhaglenni dogfen) ac yn defnyddio cynnwys o'r archif a allai ddarparu amrywiaeth ac ansawdd yn ogystal â chefnogi dysgu. Fodd bynnag, fe wnaethom ystyried yn gyffredinol nad oedd yr achos dros natur unigryw'r orsaf o ran lefel yr arloesi ac amrywiaeth y gerddoriaeth yn gryf.

## Ymatebion rhanddeiliaid

2.25 <u>Gwerth cyhoeddus a natur unigryw cyffredinol:</u> Roedd Radiocentre a News Broadcasting yn cytuno'n fras â'n safbwynt dros dro ar gynnig R2E, a dywedodd Boom Radio ei fod yn gwbl gefnogol.[14] Ar y llaw arall, dywedodd y Fforwm Rheolwyr Cerddoriaeth ei fod yn cefnogi'n gryf yr estyniad arfaethedig i Radio 2, ac y byddai (gyda rhai cafeatau, a drafodir isod) yn cynyddu effeithiau cadarnhaol (fel mwy o wrandawyr a mwy o werthiant i gerddorion o Brydain). Roedd UK Music yn cytuno'n rhannol â'n safbwyntiau dros dro ar werth cyhoeddus, ond nodwyd y byddai archif y BBC o gynnwys wedi'i recordio a chynnwys byw arbennig yn helpu i gefnogi ansawdd ac amrywiaeth yr allbwn.[15]

2.26 Roedd y BBC yn anghytuno â'n penderfyniad dros dro, gan ddweud bod ein hasesiad yn pwysleisio natur unigryw R2E. Mae'n credu y byddai'r cynnig yn unigryw ac yn arloesol, gan gynnwys mewn perthynas â'r bartneriaeth arfaethedig â radio lleol y BBC, cynnwys o'r archif megis cerddoriaeth wedi'i recordio a cherddoriaeth fyw unigryw ac arbennig, a rhaglenni llafar a dogfennol. Cyfeiriodd y BBC hefyd at ein cymariaethau â Boom Radio

[13] Mae estyniadau brand o'r fath yn cynnwys Heart Dance, Capital XTRA, Absolute Radio 10s a Virgin Radio Anthems.

[14] Radiocentre, ymateb i'n penderfyniad dros dro, t.4; News Broadcasting, ymateb i'n penderfyniad dros dro, t. 3; Boom Radio, ymateb i'n penderfyniad dros dro.

[15] Fforwm Rheolwyr Cerddoriaeth, ymateb i'n penderfyniad dros dro. UK Music, ymateb i'n penderfyniad dros dro.

(sydd hefyd yn darparu cerddoriaeth o'r 50au, y 60au a'r 70au gyda thua 10,000 o draciau unigryw y flwyddyn) a dywedodd ei bod yn ymddangos bod Ofcom yn awgrymu mai "dim ond os yw'r BBC yn cynnig rhywbeth cwbl unigryw i weddill y farchnad y gellir ystyried ei fod yn darparu gwerth cyhoeddus."[16] Nododd y BBC hefyd sylw Ofcom ar y diffyg cymhariaeth â gorsafoedd sydd newydd gael eu lansio fel Greatest Hits Radio 60s. Roedd yn rhoi sylw i ddull gweithredu Ofcom ar gyfer y gorsafoedd radio masnachol a lansiwyd ers cyhoeddiadau'r BBC yn ei drafodaeth ar ddull gweithredu deinamig Ofcom o ddadansoddi'r farchnad, sy'n cael sylw isod. Er hyn, nododd fod y gwasanaeth hwn wedi cael ei lansio saith mis ar ôl ei ymgynghoriad cychwynnol, ac roedd Bwrdd y BBC wedi gwneud ei benderfyniad terfynol ar y cynigion yn yr un wythnos.[17]

2.27 Roedd y rhan fwyaf o'r unigolion a atebodd am R2E yn anghytuno â'n casgliadau ar werth cyhoeddus R2E, gan nodi y byddai'r gwasanaeth yn cynnig gwerth a/neu y dylid caniatáu iddo barhau.[18] Dadleuodd un unigolyn y dylai Ofcom nodi y byddai'n croesawu cynigion diwygiedig ar gyfer R2E sy'n bodloni rhwymedigaethau rheoleiddio'r BBC yn well.[19] Roedd un ymatebydd unigol o'r farn y dylai Ofcom rwystro'r gwasanaeth arfaethedig.[20]

2.28 Cerddoriaeth newydd: Roedd UK Music a'r Fforwm Rheolwyr Cerddoriaeth o'r farn y dylai estyniad Radio 2 ymrwymo i sicrhau bod o leiaf traean o'r traciau'n gerddoriaeth newydd.[21] Nododd y BBC fod Ofcom wedi beirniadu'r diffyg cerddoriaeth newydd ac arloesi, gan nodi nad oedd yn glir beth mae Ofcom yn ei olygu wrth gerddoriaeth newydd (yng nghyd-destun gwasanaeth sy'n darparu cerddoriaeth o'r 50au, y 60au a'r 70au).[22]

## Ein hymateb

2.29 Gwerth cyhoeddus a natur unigryw cyffredinol: Fel y nodwyd uchod, mae ein hadolygiad o werth cyhoeddus yn ystyried sut byddai'r cynigion yn cyflawni Cenhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC, gan gynnwys sut byddai'r gwasanaeth yn cyfrannu at y pum 'piler' natur unigryw. Dim ond un o'r ffactorau a gyfrannodd at ein hystyriaethau yw'r cymariaethau â darparwyr eraill (er enghraifft wrth ystyried yr amrywiaeth o gerddoriaeth y byddai'n ei darparu o'i gymharu â darparwyr tebyg), ac roeddem wedi adolygu'r cymariaethau roedd y BBC wedi'u gwneud yn ei brawf budd y cyhoedd ei hun. Fodd bynnag, roeddem hefyd wedi ystyried y gwasanaeth arfaethedig yn ei rinwedd ei hun, er enghraifft gan nodi elfennau penodol fel y bartneriaeth â chynnwys archif a radio lleol. Mae'r elfennau hyn wedi llywio ein barn y byddai'r estyniad arfaethedig i Radio 2 yn cynnig rhywfaint o werth cyhoeddus.

2.30 Mewn perthynas â sylw'r BBC ei bod hi'n ymddangos bod Ofcom wedi disgwyl i gymariaethau â gorsafoedd sydd newydd gael eu lansio gael eu cynnwys yn ei gynnig, i egluro, ni fyddem yn disgwyl i'r BBC ddiwygio ei asesiad gwerth cyhoeddus i ystyried gorsafoedd sydd wedi lansio ar ôl i'r BBC ddatblygu ei ddadansoddiad. Yn unol â hynny,

[16] Ymateb y BBC i'n penderfyniad dros dro, tt. 5-6.
[17] Ymateb y BBC i'n penderfyniad dros dro, tt. 5-6.
[18] Er enghraifft: Aelod o'r cyhoedd 1, ymateb i'n penderfyniad dros dro; Mark Punter, ymateb i'n penderfyniad dros dro; Ymateb Aelod o'r cyhoedd 4 i'n penderfyniad dros dro, ; David Helsby, ymateb i'n penderfyniad dros dro.
[19] Aelod o'r cyhoedd 2, ymateb i'n penderfyniad dros dro, tt.1-2.
[20] J Peter Wilson, ymateb i'n penderfyniad dros dro.
[21] Y Fforwm Rheolwyr Cerddoriaeth, ymateb i'n penderfyniad dros dro, t. 1; UK Music, ymateb i'n penderfyniad dros dro, t. 2.
[22] Ymateb y BBC i'n penderfyniad dros dro, t. 6.

nid oeddem wedi cynnwys y gorsafoedd newydd fel rhan o'n hadolygiad o achos gwerth cyhoeddus y BBC, ond yn syml roeddem wedi nodi lansio rhai gorsafoedd newydd yn yr ymgynghoriad fel cyd-destun i'r adolygiad.

2.31 Cerddoriaeth Newydd: Rydym yn deall cais UK Music a'r Fforwm Rheolwyr Cerddoriaeth ynghylch cerddoriaeth newydd, ond nid rôl Ofcom yw awgrymu ffyrdd i'r BBC gynyddu gwerth cyhoeddus ei gynigion. O ran pwynt y BBC ynghylch Ofcom yn beirniadu diffyg cerddoriaeth newydd, nid oeddem wedi awgrymu y dylai ei chynnwys er mwyn cynyddu gwerth cyhoeddus – rydym yn cydnabod y byddai gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar gerddoriaeth y 50au, y 60au a'r 70au yn annhebygol o ganolbwyntio ar gerddoriaeth newydd.

# 5 Sports Extra

## Ein safbwyntiau dros dro

2.32 Roeddem o'r farn y byddai cynnig y BBC ar gyfer 5 Sports Extra ('5SE') yn darparu rhywfaint o werth personol, gwerth cymdeithasol a gwerth i'r diwydiant, drwy ehangu'r chwaraeon sydd ar gael ar radio llinol, dangos cynnwys chwaraeon presennol i gynulleidfa ehangach ac o bosibl helpu i ganfod cynnwys chwaraeon arall ar BBC Sounds. Nodwyd y byddai gwerth personol yn cael ei ddarparu wrth i fwy o gynulleidfaoedd glywed a mwynhau'r cynnwys hwn, er y gallai fod gwerth cymdeithasol drwy roi sylw i ystod ehangach o chwaraeon, gan gynnwys rhai chwaraeon nad ydynt yn rhai prif ffrwd.

2.33 Fodd bynnag, ni wnaeth y BBC warantu y byddai'n rhoi sylw sylweddol i chwaraeon sy'n cael llai o sylw ar hyn o bryd, ac nid oeddem yn credu bod digon o dystiolaeth y byddai'r newidiadau'n apelio'n arbennig at ei gynulleidfaoedd targed, sef cynulleidfaoedd C2DE ac iau. Nid oeddem chwaith o'r farn bod dadansoddiad y BBC (ar sail proffiliau cyrhaeddiad ac wedi'i fynegeio yn erbyn cyrhaeddiad slotiau newyddion ar 5 Live) wedi darparu tystiolaeth o apêl i gynulleidfaoedd C2DE, o ystyried bod gwrandawyr newyddion 5 Live yn fwy tebygol o fod yn ABC1. Roeddem o'r farn y byddai'r cynigion, i ryw raddau, yn helpu i ganfod cynnwys chwaraeon ar BBC Sounds ond nodwyd nad oedd y BBC wedi modelu'n benodol unrhyw effeithiau ychwanegol ar wrando ar-alw BBC Sounds, nac wedi gwneud ymrwymiadau pendant ynghylch sut byddai'n hyrwyddo cynnwys ar Sounds. Felly, nid oeddem yn siŵr i ba raddau y byddai'r cynigion yn cynyddu'r nifer sy'n gwrando ar BBC Sounds.

## Ymatebion rhanddeiliaid

2.34 Casgliadau cyffredinol ar werth cyhoeddus: Dywedodd News Broadcasting ei fod yn cytuno'n fras â chasgliad dros dro Ofcom (bod y cynnig yn darparu gwerth cyhoeddus cyfyngedig), ond ei fod yn anghytuno y byddai'r gwasanaeth yn cynnig rhywfaint o werth cyhoeddus drwy ddod â chynnwys chwaraeon i gynulleidfa ehangach. Dywedodd ei fod yn poeni y byddai'r gwasanaeth yn gweithredu fel "gorsaf trafod chwaraeon drwy'r dydd sy'n rhoi sylw i chwaraeon prif ffrwd" ac y gallai felly fod yn ddewis agos iawn at rwydwaith talkSPORT. Croesawodd y BBC gydnabyddiaeth Ofcom y byddai'r cynigion yn dod â gwerth drwy ddarlledu mwy o gynnwys chwaraeon, gan gynnwys chwaraeon llai prif ffrwd.[23]

[23] News Broadcasting, ymateb i'n penderfyniad dros dro, t. 2; y BBC, ymateb i'n penderfyniad dros dro, t. 8.

2.35 Roedd rhai ymatebwyr unigol yn anghytuno â'n casgliadau ar werth cyhoeddus 5SE, gan nodi y byddai'r newidiadau arfaethedig yn cynnig gwerth a/neu y dylid caniatáu iddo barhau.[24] Roedd dau unigolyn yn cytuno â'n canfyddiadau/yn dweud y dylai'r gwasanaeth aros fel y mae.[25]

2.36 Cynulleidfaoedd: Roedd y BBC yn anghytuno â'n hawgrym nad oedd yn dangos sut byddai'r newidiadau'n apelio'n arbennig at gynulleidfaoedd C2DE. Dywedodd ei fod wedi cynnal ymchwil helaeth ymysg cynulleidfaoedd ac roedd ei ganfyddiadau'n awgrymu'n gryf y byddai ei gynnig yn gwasanaethu cynulleidfaoedd C2DE yn well. Dywedodd, er mwyn cael pwynt data mesuradwy ar gyfer gwrando ar gynnwys chwaraeon ar 5 Live, mai dim ond yn erbyn y cynnwys arall sy'n cael ei ddarlledu ar y gwasanaeth y gallai fynegeio, sef newyddion. Fodd bynnag, dywedodd News Broadcasting ei fod yn cael trafferth gweld sut byddai'r cynnig yn targedu cynulleidfa benodol y BBC o wrandawyr iau, C2DE y tu allan i Dde Lloegr. Dywedodd ei bod yn ymddangos yn fwy tebygol y byddai'n apelio i gynulleidfa ehangach.[26]

2.37 Pa mor hawdd yw canfod cynnwys: Dywedodd y BBC y byddai ei gynigion yn helpu pobl i ganfod cynnwys chwaraeon ar BBC Sounds. Dywedodd ei fod yn credu y dylai Ofcom ystyried yr 'effaith ffenestr siop', a allai ddenu mwy o gynulleidfaoedd i BBC Sounds, a'r duedd gyffredinol o wrandawyr yn mabwysiadu gwasanaethau sain ar-alw. Roedd News Broadcasting yn anghytuno y byddai'r gwasanaeth i ryw raddau yn helpu pobl i ddod o hyd i gynnwys chwaraeon arall sydd eisoes ar gael, gan ddweud bod y BBC wedi methu â darparu tystiolaeth gadarn i gefnogi ei achos gwerth cyhoeddus.[27]

## Ein hymateb

2.38 Casgliadau cyffredinol ar werth cyhoeddus: Rydym yn cydnabod y gwahanol safbwyntiau a ddarparwyd gan ymatebwyr ar werth cyhoeddus cyffredinol 5SE. Ar ôl ystyried yr ymatebion hyn, rydym yn dal o'r farn y byddai'r newidiadau arfaethedig yn cynnig rhywfaint o werth cyhoeddus. Y rheswm am hyn yw ein bod yn credu y byddai'r gwasanaeth yn cynnig gwerth drwy gynyddu faint o chwaraeon sydd ar radio llinol a gallai ddarparu rhywfaint o werth cymdeithasol drwy roi sylw i amrywiaeth ehangach o chwaraeon, gan gynnwys chwaraeon nad ydynt yn rhai prif ffrwd. Fodd bynnag, rydym yn credu y gallai'r gwerth cyhoeddus fod yn fwy cyfyngedig na'r hyn a gynigir gan y BBC gan nad oedd wedi ymrwymo i roi sylw sylweddol i chwaraeon sy'n cael llai o sylw ar hyn o bryd.

2.39 Cynulleidfaoedd: Nodwn safbwyntiau'r BBC a News Broadcasting ynghylch apêl y gwasanaeth i gynulleidfaoedd. Rydym yn gwerthfawrogi bod y BBC wedi casglu amrywiaeth o dystiolaeth i lywio ei gynlluniau, ond fel roeddem wedi'i nodi yn ein hymgynghoriad, cafodd dadansoddiad y BBC o broffiliau cynulleidfaoedd ei gymharu â gwrandawyr newyddion 5 Live sy'n fwy tebygol o fod yn ABC1 na'r holl wrandawyr radio. Rydym yn dal o'r farn nad yw hyn yn darparu tystiolaeth gref o'r apêl debygol i gynulleidfaoedd C2DE: credwn y byddai wedi bod yn well mynegeio yn erbyn yr holl

---

[24] Aelod o'r cyhoedd 2, ymateb i'n penderfyniad dros dro, t. 2; Aelod o'r cyhoedd 6, ymateb i'n penderfyniad dros dro; Geoff Rogers, ymateb i'n penderfyniad dros dro; Luke Graham, ymateb i'n penderfyniad dros dro. Stephen Trevett.
[25] Aelod o'r cyhoedd 1, ymateb i'n penderfyniad dros dro; J Peter Wilson, ymateb i'n penderfyniad dros dro.
[26] Y BBC, ymateb i'n penderfyniad dros dro, t. 5; Darlledu Newyddion, ymateb i'n penderfyniad dros dro, t. 2.
[27] Y BBC, ymateb i'n penderfyniad dros dro, t. 8; News Broadcasting, ymateb i'n penderfyniad dros dro, t. 3.

wrandawyr radio, gan y byddai hyn wedi darparu cymhariaeth yn erbyn y gronfa gyfan o wrandawyr radio, yn hytrach nag yn erbyn sampl a oedd yn gwyro mwy at wrandawyr ABC1.

2.40 Pa mor hawdd yw canfod cynnwys: Rydym yn nodi pwyntiau'r BBC ynghylch pa mor hawdd yw dod o hyd i gynnwys ac rydym yn deall bod 'effaith ffenestr siop' yn gallu dod â chynulleidfaoedd i BBC Sounds. Fel y nodir yn yr ymgynghoriad, rydym o'r farn y byddai'r cynigion o bosibl yn helpu pobl i ddod o hyd i gynnwys chwaraeon arall ar BBC Sounds. Nodwyd y gallai'r cynnydd yn nifer y gwrandawyr 5SE, yn ogystal â'r cyfleoedd i roi sylw i gynnwys podlediadau ar radio llinol a hyrwyddo cynnwys ychwanegol ar Sounds, fod wedi arwain at rai o'r gwrandawyr hynny'n gwrando ar Sounds. Fodd bynnag, rydym yn dal o'r farn ei bod yn ansicr faint y byddai'r cynigion yn cynyddu lefelau gwrando BBC Sounds o ystyried nad oedd BBC wedi modelu unrhyw effeithiau ychwanegol yn benodol ar wrando ar-alw BBC Sounds, ac nid yw ychwaith wedi gwneud ymrwymiadau cadarn o ran sut byddai'n hyrwyddo cynnwys ar Sounds.

## Casgliadau ar werth cyhoeddus

2.41 Rydym yn dod i'r casgliad y byddai lansio R1A, R1D a R3U yn darparu rhywfaint o werth cyhoeddus. Nod y gorsafoedd arfaethedig yw apelio at wrandawyr iau a gwrandawyr C2DE sy'n cael llai o werth gan y BBC, sy'n cynnwys rhai elfennau unigryw a chefnogi'r diwydiant cerddoriaeth a'r biblinell dalent. Fodd bynnag, mae yna rannau o asesiad y BBC lle rydym yn credu bod y gwerth yn debygol o fod yn fwy cyfyngedig na'r hyn mae'r BBC yn ei nodi, lle rydym yn credu bod llai o sicrwydd o'r dystiolaeth a nodwyd na'r hyn sy'n cael ei awgrymu gan y BBC.

2.42 Byddai R2E hefyd yn cynnig rhywfaint o werth cyhoeddus. Byddai'n targedu gwrandawyr C2DE hŷn, yn darparu 30% o gynnwys llafar (gan gynnwys bwletinau newyddion rheolaidd a rhaglenni dogfen) ac yn defnyddio cynnwys o'r archif a allai ddarparu amrywiaeth ac ansawdd yn ogystal â chefnogi dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r achos cyffredinol dros natur unigryw'r orsaf o ran lefel yr arloesi ac amrywiaeth y gerddoriaeth yn gryf, ac mae hyn yn cyfyngu ar werth cyhoeddus yr orsaf arfaethedig.

2.43 Rydym yn dod i'r casgliad y byddai 5 Sport Extra yn darparu rhywfaint o werth personol drwy ehangu'r chwaraeon sydd ar gael ar radio llinol, dangos cynnwys chwaraeon presennol i gynulleidfa ehangach ac o bosibl helpu i ganfod cynnwys chwaraeon arall ar BBC Sounds. Fodd bynnag, nid yw'r BBC yn gwarantu y bydd yn rhoi sylw sylweddol i chwaraeon sy'n cael llai o sylw ar hyn o bryd, ac nid ydym yn credu bod digon o dystiolaeth y byddai'r newidiadau'n apelio'n arbennig at ei gynulleidfaoedd targed, sef cynulleidfaoedd C2DE ac iau.

# 3. Ein hasesiad o effeithiau posibl ar y farchnad

## Cyflwyniad

3.1 Yn unol â’n dyletswyddau o dan y Siarter a’r Cytundeb, mae’n rhaid i ni asesu sut gallai’r newidiadau ‘sylweddol’ a gynigir gan y BBC effeithio ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Rhaid i ni gynnal ein hasesiad ein hunain o’r cynnig cyn y gellir gweithredu newid. Mae ein rôl a’n dull o gynnal asesiadau cystadleuaeth y BBC wedi’u nodi yn ein Canllawiau i Asesiadau Cystadleuaeth y BBC.

3.2 Fel y nodir yn y ddogfen penderfyniad dros dro, roeddem wedi asesu’r effaith ar y farchnad drwy amcangyfrif maint gorsafoedd arfaethedig y BBC yn gyntaf. Yna, fe wnaethom edrych ar o ble y byddai gwrandawyr y gorsafoedd arfaethedig yn debygol o ddod, a oedd yn ein galluogi i amcangyfrif yr effaith ar lefelau gwrando, refeniw a phroffidioldeb gweithredwyr masnachol cystadleuol. Gwnaethom hefyd asesu effeithiau ehangach posibl cynigion y BBC, o ganlyniad i’r ffordd mae’r BBC yn caffael cynnwys a mewnbwn i ddatblygu ei wasanaethau.

3.3 Ein barn dros dro oedd y byddai effaith gorsafoedd arfaethedig R1A, R1D a R3U y BBC ar y farchnad yn debygol o fod yn gyfyngedig, yn unigol a gyda’i gilydd. Fodd bynnag, roeddem o’r farn y byddai gorsaf arfaethedig R2E yn debygol o effeithio’n sylweddol ar weithredwyr masnachol, yn enwedig ar y gweithredwr annibynnol Boom Radio. Roeddem hefyd o’r farn y gallai R2E o bosibl atal mynediad a lleihau cymhellion buddsoddi i weithredwyr masnachol yn fwy cyffredinol. Roeddem hefyd wedi dod i’r casgliad dros dro y gallai cynnig y BBC i ehangu 5SE gael effaith niweidiol sylweddol ar Rwydwaith talkSPORT – yr unig rwydwaith radio chwaraeon masnachol amser llawn yn y DU. Roeddem o’r farn bod opsiynau talkSPORT i liniaru effaith 5SE yn gyfyngedig gan ei bod yn annhebygol y gallai wella, yn rhwydd, ei harlwy chwaraeon byw o ystyried natur sut mae hawliau chwaraeon byw yn cael eu caffael yn y farchnad.

3.4 Rydym wedi cael nifer o ymatebion gan randdeiliaid i’n penderfyniad dros dro, ac rydym yn rhoi sylw i’w hymatebion yn yr is-adrannau canlynol:

a) effaith statig ar weithredwyr masnachol;
b) effeithiau deinamig;
c) radio lleol a chymunedol;
d) effeithiau ehangach.

## Effaith statig ar weithredwyr masnachol

### Ein canfyddiadau arfaethedig

3.5 Mae'r ddogfen penderfyniad dros dro yn nodi ein hamcangyfrifon ar gyfer lefelau gwrando gorsafoedd cerddoriaeth arfaethedig y BBC ac ehangu 5SE, ac effeithiau statig y cynigion hyn.[28] Yn gyffredinol, roeddem wedi amcangyfrif lefelau gwrando tebyg i’r BBC ar

[28] Ofcom, dogfen penderfyniad dros dro, tt. 34-37.

gyfer 5SE a'r gorsafoedd cerddoriaeth, ac eithrio ar gyfer R3U lle mae'r oriau gwrando a amcangyfrifir gennym yn uwch nag amcangyfrifon y BBC. [29]

3.6 Yna, fe wnaethom amcangyfrif y byddai lansio R1A, R1D a R3U yn debygol o arwain at golli ychydig o wrandawyr ar draws cwmnïau masnachol, yn unigol ac ar y cyd. [30] Fodd bynnag, canfu y byddai lansio R2E yn debygol o arwain at weithredwyr masnachol yn colli mwy o wrandawyr, yn arbennig y gweithredwr annibynnol Boom Radio. Ar gyfer 5SE, roedd ein hamcangyfrifon yn dangos y gallai newidiadau arfaethedig y BBC arwain at talkSPORT yn colli tua 4.6% - 5.3% o wrando ar draws rhwydwaith talkSPORT.

3.7 Yn olaf, fe wnaethom drosi'r effeithiau hyn ar wrando yn effeithiau ariannol.[31] Roeddem yn amcangyfrif y byddai R1A, R1D a R3U yn debygol o gael effaith fach ar broffidioldeb y gweithredwyr masnachol, yn unigol ac ar y cyd, a gallai R2E a 5SE effeithio'n sylweddol ar broffidioldeb gweithredwyr masnachol, yn enwedig y gweithredwyr annibynnol, Boom Radio a Rhwydwaith talkSPORT, yn y drefn honno.

## Ymatebion rhanddeiliaid a datblygiadau ers yr ymgynghoriad

### Gorsafoedd cerddoriaeth

3.8 Cawsom nifer o ymatebion gan randdeiliaid yn ymwneud â'n dull o amcangyfrif effeithiau sefydlog ar weithredwyr masnachol.

**Amcangyfrif faint sy'n gwrando ar y gorsafoedd arfaethedig**

*Ymatebion rhanddeiliaid*

3.9 Mynegodd Radiocentre bryderon am y dull o'r brig i lawr rydyn ni, a'r BBC, yn ei ddefnyddio i amcangyfrif y nifer sy'n gwrando. Roedd yn dadlau bod y berthynas rhwng yr estyniad a'r prif orsafoedd yn dibynnu ar lawer o ffactorau. Awgrymodd hefyd y gallai'r berthynas rhwng estyniad masnachol a phrif orsafoedd fod yn wahanol i berthynas estyniad y BBC a rhiant orsafoedd (er enghraifft, oherwydd bod gan y BBC fwy o gyfleoedd i drawshyrwyddo).[32]

Ein hymateb

3.10 Fel y trafodwyd yn atodiad 1 ein penderfyniad dros dro, roeddem wedi ystyried amrywiaeth o ddulliau gwahanol ar gyfer amcangyfrif gwrando'r gorsafoedd cerddoriaeth newydd. Roeddem yn cydnabod y gallai lefelau gwrando'r estyniad ddibynnu ar amrywiaeth o ffactorau ond roeddem o'r farn mai'r estyniad yw'r dull mwyaf rhesymol ac ymarferol yn yr achos hwn o ran y rhiant orsaf. Y rheswm am hyn yw oherwydd (i) bydd lefelau gwrando ar orsafoedd arfaethedig y BBC yn amrywio yn ôl y brif orsaf (oherwydd pŵer brand, cyd-ddarlledu a chyd-hyrwyddo ac ati); a (ii) mae cydberthynas rhwng gwrando ar estyniadau masnachol a gwrando ar eu prif orsafoedd.

3.11 O ran cyfle'r BBC i drawshyrwyddo, nododd y BBC yn ei ddogfen PIT "nad yw'n bwriadu cynyddu lefel gyffredinol yr hyrwyddiadau gwasanaeth cyhoeddus" ar draws llwyfannau

[29] Gweler ffigur 6 o'n dogfen penderfyniad dros dro.
[30] Gweler ffigur 7 y ddogfen penderfyniad dros dro. Mae ein dadansoddiad wedi dangos mwy o golledion gwrando ar lefel gorsafoedd ar gyfer pob gweithredwr gan y byddem yn disgwyl y byddai'r effaith yn cael ei theimlo yn bennaf gan orsafoedd sydd â nodweddion tebyg i orsafoedd y BBC.
[31] Tarwch olwg ar ffigur 8 y ddogfen penderfyniad dros dro.
[32] Radiocentre, ymateb i'n penderfyniad dros dro, t. 5.

Teledu/iPlayer na llwyfannau Radio/Sounds.[33] Rydym hefyd yn nodi bod y BBC wedi canfod cost cyfle rhwng y gofodau trawshyrwyddo cyfyngedig sydd ar gael a'r galw am drawshyrwyddo rhaglenni a gwasanaethau eraill, a allai, yn ein barn ni, gyfyngu ar allu'r BBC i drawshyrwyddo ei orsafoedd newydd.[34] Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai graddfa a maint y BBC ei alluogi i ddenu mwy o wrandawyr o'i weithgareddau trawshyrwyddo o hyd o'i gymharu â rhai gweithredwyr masnachol. Er hyn, rydym o'r farn y gallai ein dull gweithredu eisoes gyfleu'r potensial am effaith drawshyrwyddo gryfach gan y BBC. Y rheswm am hyn yw ein bod wedi tueddu i oramcangyfrif lefelau gwrando posibl y gorsafoedd cerddoriaeth drwy ddefnyddio ffactor graddio'r rhiant-estyniad ar gyfer cyfanswm y gwrando ar riant orsaf y BBC. Fel arfer, mae gan y BBC gyfran fwy o wrandawyr ar AM / FM na radio masnachol, ac mae ychwanegu'r gymhareb at gyfanswm y lefelau gwrando yn debygol o oramcangyfrif faint o oriau gwrando y gellid eu cyflawni ar yr estyniadau DAB+ newydd hyn.

**Amcangyfrif faint o wrando y bydd gweithredwyr masnachol yn ei golli**

*Ymatebion rhanddeiliaid*

3.12 Awgrymodd y BBC ein bod wedi colli nifer o orsafoedd radio o'n set cystadleuwyr.[35] Awgrymodd:

- Dylai Capital XTRA a Capital XTRA Reloaded fod yn perthyn i'r set cystadleuwyr sydd wedi'i phennu ar gyfer R1D;
- Dylai Capital Network, KISS a Virgin Radio Anthems fod yn perthyn i'r set o gystadleuwyr sydd wedi'i phennu ar gyfer R1A;
- Dylai Absolute Radio, Absolute Classic Rock, Greatest Hits Radio 60s, Heart, Magic Soul a Virgin Radio fod yn perthyn i'r set o gystadleuwyr sydd wedi'i phennu ar gyfer R2E.

3.13 Mynegodd y BBC bryderon hefyd am ein defnydd o ragolygon Boom Radio ei hun i amcangyfrif y lefelau gwrando yn y dyfodol yn y sefyllfa wrthffeithiol. Awgrymodd y dylem yn hytrach fod wedi defnyddio oriau gwrando hanesyddol RAJAR, fel y gwnaethom ar gyfer y gweithredwyr masnachol eraill.[36]

3.14 Awgrymodd rhai aelodau o'r cyhoedd hefyd fod gan Boom Radio gefnogwyr ffyddlon na fyddai'n newid i un o wasanaethau'r BBC. Awgrymodd un unigolyn fod llawer o wrandawyr Boom Radio yn hŷn na'r gynulleidfa darged ar gyfer R2E.[37]

*Ein hymateb*

3.15 Fel y trafodwyd yn Atodiad 1 ein penderfyniad dros dro, roeddem wedi diffinio'r setiau cystadleuwyr ar sail yr hyn sy'n debyg rhwng disgrifiad y BBC o'r gorsafoedd arfaethedig a chynnwys cerddoriaeth gorsafoedd masnachol, gan ddefnyddio data rhestr chwarae'r orsaf gan Radiomonitor. Mewn rhai achosion ffiniol, roedd ein dewis yn seiliedig ar gyd-destun y farchnad radio a'n gwybodaeth am y gorsafoedd masnachol a chynigion y BBC. Rydym yn rhoi sylw i awgrymiadau'r BBC ar gyfer pob gorsaf isod.

---

[33] Y BBC, *Gorsafoedd radio cerddoriaeth newydd: Prawf Budd y Cyhoedd*, t 83.

[34] Y BBC, ymateb News Broadcasting i gais Ofcom am wybodaeth, dyddiedig 13 Ionawr 2025, cwestiwn 2.

[35] Y BBC, ymateb i'n penderfyniad dros dro, tt. 9-10.

[36] Y BBC, ymateb i'n penderfyniad dros dro, t. 9.

[37] [✂], ymateb i'n penderfyniad dros dro; Mark Punter, ymateb i'n penderfyniad dros dro; David Helsby, ymateb i'n penderfyniad dros dro.

- **R1D**: Rydym yn anghytuno â'r BBC bod Capital XTRA a Capital XTRA Reloaded yn perthyn i'r set o gystadleuwyr. Er bod y ddwy orsaf yn apelio at ddemograffeg oedran targed R1D, ychydig iawn o orgyffwrdd sydd o ran allbwn (nid oedd y naill orsaf na'r llall wedi cyrraedd ein trothwy ar gyfer cerddoriaeth gan artistiaid y nodwyd eu bod yn berthnasol yng nghynnig y BBC) ac mae'r ddwy orsaf yn canolbwyntio ar bethau gwahanol i'r hyn a amlinellir yng nghynnig y BBC ar gyfer R1D.[38] Er enghraifft, disgrifiodd y BBC R1D fel yr orsaf sydd â'r "amrywiaeth ehangaf o genres dawns" gydag ymrwymiadau ar gyfer cerddoriaeth newydd, tra bod Capital XTRA wedi'i osod ei hun fel gorsaf ar gyfer cerddoriaeth Hip Hop ac RnB, a Capital XTRA Reloaded fel cerddoriaeth "old skool ddi-stop".[39] Fodd bynnag, rydym wedi cynnal dadansoddiad ychwanegol drwy gynnwys Capital XTRA a Capital XTRA Reloaded yn y set cystadleuwyr a gallwn gadarnhau nad yw hyn yn arwain at weithredwyr masnachol yn colli llawer o wrandawyr.[40]
- **R1A**: Rydym yn cytuno â'r BBC bod Capital Network yn perthyn i'r cystadleuydd sydd wedi'i osod ar gyfer R1A ac rydym bellach wedi cynnwys yr orsaf hon yn ein dadansoddiad. Nid yw cynnwys Capital Network yn newid ein casgliadau cyffredinol gan ei fod yn arwain at newid bach iawn i'r dadansoddiad statig o R1A (gweler ffigyrau 2-5 isod). Rydym yn anghytuno bod KISS a Virgin Radio Anthems yn perthyn i'r set cystadleuwyr am y rhesymau a nodir isod:
    - Mae KISS yn cyrraedd ein trothwyon ar gyfer cerddoriaeth gan artistiaid a degawdau perthnasol, ond mae dau ffactor pwysig sydd, yn ein barn ni, yn ei gwneud yn llai perthnasol i R1A. Yn gyntaf, rydym yn nodi bod cyfran y gerddoriaeth o'r 2000au a'r 2010au sy'n cael ei chwarae yn llawer is na gorsafoedd eraill sy'n gystadleuwyr, ac mae cyfran sylweddol o gerddoriaeth fwy newydd o'r 2020au nad yw'n ymddangos yng nghynnig y BBC ar gyfer R1A. Yn ail, mae brand KISS yn pwysleisio ar ddau genre penodol ("The Biggest Dance ac R&B") ac mae'r BBC yn datgan y bydd y gerddoriaeth ar R1A yn fwy amrywiol: "[...] yn debyg i Radio 1, sy'n cynnwys traciau pop clasurol, roc, rap, R&B, dawns ac indie".[41] Er mwyn bod yn gyflawn, rydym wedi profi cynnwys KISS yn set cystadleuwyr R1A ac nid yw hyn yn newid ein casgliadau cyffredinol gan mai dim ond ychydig o newid mae'n ei wneud i ddosbarthiad yr oriau gwrando a'r refeniw a gollwyd ar draws y gweithredwyr masnachol. [42]
    - Mae Virgin Radio Anthems yn chwarae cerddoriaeth wahanol i'r hyn mae'r BBC wedi'i gynnig ar gyfer R1A, ac nid oedd yn cyrraedd ein trothwy ar gyfer cerddoriaeth sy'n cael ei chwarae o ddegawdau perthnasol, gan wyro mwy at gerddoriaeth o'r 70au a'r 80au yn hytrach na'r 00au a'r 10au. Nodwn hefyd fod Virgin Radio Anthems wedi cael ei ailfrandio i Virgin Radio Legends ar 31 Mawrth

[38] Yn ôl data RAJAR ar gyfer Ch1 2025, mae 58.6% o gynulleidfa Capital XTRA a 51.1% o gynulleidfa Capital XTRA Reloaded rhwng 15 a 34 oed.
[39] Y BBC, *Gorsafoedd radio cerddoriaeth newydd: Prawf Budd y Cyhoedd*, t 34.
[40] Wrth gynnwys Capital XTRA a Capital XTRA Reloaded yn set cystadleuwyr R1D, rydym yn sylwi bod effeithiau'n cael eu hailddosbarthu: cynydd o 0.1 pwynt canran yng ngholled oriau gwrando a refeniw ar gyfer Global a gostyngiad o 0.1 pwynt canran yng ngholled oriau gwrando a refeniw ar gyfer Bauer. O'r herwydd, nid yw ein casgliadau ar R1D yn newid.
[41] Arwyddair gorsaf KISS, Bauer, https://hellorayo.co.uk/kiss (cyrchwyd 05 Mehefin 2025). Ffynhonnell disgrifiad y BBC o R1A yw BBC, Gorsafoedd radio cerddoriaeth newydd: Prawf Buddiant Cyhoeddus, t. 37.
[42] Pan fyddwn yn cynnwys KISS yn set cystadleuwyr R1A, rydym yn gweld ailddosbarthiad o effeithiau: cynnydd o 0.1 pwynt canran yng ngholled oriau gwrando a refeniw ar gyfer Bauer a gostyngiad dibwys yng ngholled oriau gwrando a refeniw ar gyfer rhwydwaith Global a Virgin Radio. Felly, nid yw ein casgliadau ar R1A yn newid.

2025 i adlewyrchu'r "artistiaid mae'r orsaf yn eu chwarae", sy'n golygu nad yw lansio R1A yn debygol o effeithio ar yr orsaf hon, yn enwedig wrth ystyried cystadleuaeth yn y dyfodol.[43]

- **R2E:** Rydym yn cytuno â'r BBC bod Greatest Hits Radio 60s yn perthyn i'r cystadleuydd a bennwyd ac rydym bellach wedi cynnwys yr orsaf hon yn ein dadansoddiad. Nid yw cynnwys Greatest Hits Radio 60s yn newid ein casgliadau cyffredinol gan ei fod yn arwain at newid bach iawn i ganlyniadau ein dadansoddiad statig o R2E (gweler ffigyrau 2-5 isod). Nid ydym yn cytuno â'r BBC ynghylch Absolute Classic Rock, Absolute Radio, Heart, Virgin Radio na Magic Soul am y rhesymau hyn:
    - Mae ffocws genre Absolute Classic Rock yn llawer mwy cyfyng na'r orsaf R2E arfaethedig, gyda llawer o'i chynnwys yn deillio o'r 80au sy'n ddegawd y tu allan i'r cwmpas ar gyfer R2E;
    - Nid yw cynnwys Absolute Radio, Heart na Virgin Radio yn cyrraedd ein trothwy degawd yn y set cystadleuwyr, gan fod cyfran uchel o'u hallbwn yn gerddoriaeth o'r 80au ymlaen.[44] Rydym hefyd o'r farn bod y gorsafoedd hyn yn fwy prif ffrwd a bod ganddynt apêl ehangach na chwmpas arfaethedig R2E.
    - Mae Magic Soul yn achos ffiniol gan nad yw ond yn cyrraedd y trothwy o drwch blewyn ar gyfer cerddoriaeth gan artistiaid perthnasol. Er hyn, nid oeddem o'r farn bod yr orsaf hon yn rhan o'n set cystadleuwyr oherwydd bod ei genre cul yn canolbwyntio ar gerddoriaeth i'r enaid. Fodd bynnag, rydym wedi cynnal dadansoddiad ychwanegol drwy gynnwys Magic Soul ac mae hyn yn cael effaith fach iawn ar ein canlyniadau cyffredinol.[45]

3.16 O ran anghytundeb y BBC â'n defnydd o ragolygon Boom Radio ei hun i amcangyfrif lefelau gwrando gwrthffeithiol, nodwn mai Boom Radio oedd yr unig weithredwr a oedd yn rhagweld cyn belled ymlaen â 2027. Nid oes gennym unrhyw reswm i gredu bod rhagolwg Boom Radio yn afrealistig gan ein bod yn deall ei fod yn defnyddio'r un model at ei ddibenion cynllunio ariannol a phenderfyniadau busnes ei hun.[46] Fodd bynnag, rydym wedi cynnal dadansoddiad ychwanegol drwy ddefnyddio data RAJAR hanesyddol i ragweld oriau gwrando Boom Radio, ac mae hyn ond yn arwain at newid bach iawn yn y gwrando sy'n cael ei golli ar draws y gweithredwyr masnachol.[47] O'r herwydd, ni fyddai'r dull hwn yn newid ein casgliad ar effaith R2E.

3.17 Rydym yn cytuno mai teyrngarwch ac oedran gwrandawyr y gorsafoedd perthnasol sy'n gystadleuwyr fydd yn pennu effaith gwasanaethau arfaethedig y BBC. Roeddem felly wedi ystyried hyn yn y dadansoddiad o'n penderfyniad dros dro drwy ddefnyddio proffil

[43] News UK 'Virgin Radio Anthems Becomes Virgin Radio Legends' (cyrchwyd 05 Mehefin 2025).
[44] Yn achos Heart, roedd y gogwydd at gerddoriaeth fwy diweddar hyd yn oed yn fwy amlwg, gyda dros dri chwarter y traciau sy'n cael eu chwarae o'r 00au, y 10au a'r 20au.
[45] Wrth gynnwys Magic Soul yn set cystadleuwyr R2E, rydym yn gweld yr effeithiau'n cael eu hailddosbarthu ar draws gweithredwyr: rydym yn amcangyfrif colled ychwanegol o 0.1 pwynt canran yn oriau gwrando a refeniw Bauer, a gostyngiad o 0.2 pwynt canran yn yr effaith ar oriau gwrando a refeniw Boom Radio. O'r herwydd, nid yw ein casgliadau ynghylch effaith R2E ar gystadleuaeth deg ac effeithiol yn newid.
[46] Fe wnaethom ofyn i weithredwyr am ddata ar yr oriau gwrando a ragwelir rhwng 2025 a 2027, a gynhyrchwyd cyn i gynigion y BBC gael eu cyhoeddi, i geisio lliniaru unrhyw ragfarn yn yr oriau gwrando a ragwelir ar sail y cyhoeddiadau.
[47] Yn gyffredinol, mae newid ein dull o amcangyfrif lefelau gwrando gwrthffeithiol Boom Radio yn lleihau ein heffeithiau amcangyfrifedig ar wrando a refeniw 0.1 pwynt canran (ar gyfer Bauer, Global a Virgin Radio Network). Mae'n lleihau'r effaith ar refeniw a lefelau gwrando Boom Radio 0.4 pwynt canran.

cyrhaeddiad gorsafoedd a'u cyfran o wrandawyr a ddywedodd mai dyma'r orsaf roeddent yn ei ffafrio, er mwyn amcangyfrif i ba raddau roedd yn dargyfeirio o'r orsaf honno. Yn gyffredinol, byddai ein dadansoddiad o'r dargyfeirio yn arwain at y gorsafoedd hynny sydd â llai o deyrngarwch a chyfran uwch o wrandawyr yng ngrŵp cynulleidfa darged y gorsafoedd arfaethedig perthnasol yn colli mwy o wrando. O'r herwydd, nid yw ein casgliad ar effaith R2E wedi newid.

**Amcangyfrif effaith ariannol cynigion y BBC**

*Ymatebion rhanddeiliaid*

3.18 Croesawodd y BBC ein dadansoddiad o'r effaith ar gystadleuwyr ar lefel grŵp, yn hytrach nag ar lefel gorsafoedd unigol.[48] I'r gwrthwyneb, roedd Radiocentre yn dadlau ein bod wedi tybio'n afresymol bod grwpiau masnachol (hy gweithredwyr sydd â phortffolio o orsafoedd) yn gwneud penderfyniadau ar lefel portffolio, ond yn hytrach roedd yn dweud bod gweithredwyr wedi cyflwyno sylwadau manwl bod penderfyniadau'n cael eu gwneud fesul gorsaf. Awgrymodd fod angen i orsafoedd unigol gynhyrchu rhywfaint o gyfraniad eu hunain ac y byddent yn debygol o roi'r gorau i fodoli pe na byddent yn gynaliadwy'n ariannol yn y tymor hir.[49]

3.19 Roedd Radiocentre hefyd yn dadlau nad ydym wedi ystyried y ffaith bod gwerth masnachol gwahanol gynulleidfaoedd yn amrywio. Dywedodd hefyd ein bod wedi methu â chofnodi effaith gronnus lansiadau sy'n digwydd ar yr un pryd ar DAB+ sydd i gyd yn targedu cynulleidfa sy'n werthfawr yn fasnachol.[50]

*Ein hymateb*

3.20 Rydym yn anghytuno â Radiocentre nad ydym wedi ystyried yr effaith fesul gorsaf. Fel sy'n cael ei drafod yn atodiad 1 ein penderfyniad dros dro, rydym wedi modelu ein dadansoddiad ar lefel gorsaf ac ar lefel portffolio ar gyfer pob gweithredwr. Roeddem yn cydnabod y byddai'r effaith yn cael ei theimlo'n bennaf gan orsafoedd masnachol sydd â nodweddion tebyg i orsafoedd y BBC a nodwyd bod yr effaith ar orsafoedd masnachol sefydledig fel arfer yn is nag 8% (gyda therfyn uchaf o 10 - 15% ar gyfer sampl fach o orsafoedd).[51] Fodd bynnag, fe wnaethom nodi y bydd yr effaith yn debygol o fod yn is gan ein bod wedi mabwysiadu dull ceidwadol sy'n tueddu i oramcangyfrif yr effaith ar weithredwyr masnachol (er enghraifft, nid ydym wedi ystyried y gellid dargyfeirio rhywfaint o wrando oddi wrth ffrydwyr byd-eang). Nodwyd hefyd bod y risg o grwpiau masnachol yn cau unrhyw un o'r gorsafoedd hyn yn debygol o fod yn isel gan ein bod yn deall bod y grwpiau hyn (gyda phortffolios mawr) wedi cadw gorsafoedd yn weithredol gyda llawer mwy o wrando'n cael ei golli. Yna, fe wnaethom ystyried goblygiadau hyn yn ein dadansoddiad deinamig a dod i'r casgliad bod yr effaith ar gymhellion buddsoddi yn debygol o fod yn gyfyngedig oherwydd y tebygolrwydd o golled isel mewn gwrando / refeniw ar draws y portffolio yn ei gyfanrwydd, ac mae arwyddion y gall y gweithredwyr hyn ymateb yn ddeinamig (ee lansio gorsafoedd newydd) i liniaru unrhyw effaith.

3.21 O ran dadl Radiocentre ar werth masnachol penodol gwahanol gynulleidfaoedd, rydym yn cydnabod y gallai rhai grwpiau gwrandawyr fod yn fwy gwerthfawr yn fasnachol nag eraill.

---

[48] Y BBC, ymateb i'n penderfyniad dros dro, t. 9.
[49] Radiocentre, ymateb i'n penderfyniad dros dro, t. 5.
[50] Radiocentre, ymateb i'n penderfyniad dros dro, t. 5.
[51] Er enghraifft, mae ein gwaith modelu'n amcangyfrif y gallai Magic Classical golli 15% o wrandawyr oherwydd R3U, a gallai KISSTORY golli 13% oherwydd effaith gyfun R1A a R1D.

Rydym eisoes wedi ystyried gwahaniaethau yng ngwerth masnachol gwrando ar draws gwahanol lwyfannau wrth amcangyfrif refeniw a phroffidioldeb gwrthffeithiol cystadleuwyr (ee adlewyrchu'r gwahaniaethau mewn gwerth gwrando ar-lein).[52] Nid ydym wedi cynnal unrhyw ddadansoddiad pellach o'r gwahanol segmentau cynulleidfaoedd oherwydd cyfyngiadau data a'n dealltwriaeth gyffredinol o sylwadau rhanddeiliaid bod perthynas un-i-un rhwng refeniw a chyfanswm y gwrando ar draws pob cynulleidfa. Beth bynnag, nid ydym o'r farn y byddai hyn yn newid ein casgliadau cyffredinol gan ein bod eisoes wedi ochri at oramcangyfrif effaith ariannol y gorsafoedd ar weithredwyr masnachol (ee drwy eithrio unrhyw effaith gan ffrydwyr byd-eang). Nid ydym chwaith wedi ystyried ffactorau eraill a allai awgrymu llai o effaith ar weithredwyr masnachol (ee nid ydym wedi ystyried y potensial y gallai rhai gweithredwyr radio gael gormod o stocrestr hysbysebu, sy'n golygu y gallai gostyngiad mewn gwrando gael lai o effaith ar refeniw). Rydym hefyd yn nodi nad yw Radiocentre wedi cyflwyno rhagor o dystiolaeth / dadansoddiadau i ddangos y gallai hyn newid ein casgliadau cyffredinol.

3.22 Rydym yn anghytuno â phwynt Radiocentre nad ydym wedi ystyried effaith gronnus nifer o lansiadau ar DAB+. Roeddem wedi asesu effaith gyfun R1A, R1D a R3U yn y penderfyniad dros dro. Rydym hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn yn ffigyrau 3-5 isod. Nid yw ein casgliadau ar effaith y gorsafoedd hyn, yn unigol a gyda'i gilydd, wedi newid.

**Sylwadau eraill**

*Ymateb rhanddeiliaid*

3.23 Cytunodd Radiocentre ei bod yn debygol mai R2E fyddai wedi cael yr effaith niweidiol fwyaf ar gystadleuaeth. Fodd bynnag, mynegodd bryderon bod ein dull gweithredu a'n penderfyniad ynghylch R1A, R1D a R3U yn gosod cynsail ar gyfer cynigion estyniadau'r BBC yn y dyfodol i atgynhyrchu fformatau radio masnachol.[53]

*Ein hymateb*

3.24 Rydym yn anghytuno ag ymateb Radiocentre mewn perthynas â phennu cynsail ar gyfer newidiadau'r BBC yn y dyfodol. Fel sy'n ofynnol o dan y Siarter a'r Cytundeb, byddwn yn asesu sut bydd unrhyw gynnig gan y BBC yn y dyfodol yn effeithio ar gystadleuaeth deg ac effeithiol gan ddefnyddio'r dull gweithredu rydym yn credu sydd fwyaf priodol ac ymarferol ar gyfer pob achos unigol.

**Ein barn derfynol ar effeithiau statig estyniadau arfaethedig y BBC**

3.25 Mewn ymateb i sylwadau rhanddeiliaid a rhagor o waith mewnol yn ystod y cyfnod ymgynghori, rydym wedi gwneud pedwar diweddariad i'r modelu a ddefnyddiwyd gennym yn y ddogfen penderfyniad dros dro.

a) **Setiau cystadleuwyr:** Rydym wedi ychwanegu un orsaf arall at y set cystadleuwyr sydd wedi'i phennu ar gyfer R1A (Capital Network), un orsaf ychwanegol ar gyfer R1D (KISS Dance) ac un orsaf ychwanegol ar gyfer set cystadleuwyr R2E (Greatest Hits Radio 60s). Mae'r newid hwn yn arwain at fân ailddosbarthu'r effeithiau ymysg y gweithredwyr.
b) **Amcangyfrif y gwrando:** Rydym wedi diweddaru'r dull o gyfrifo'r cynnydd o'r ffigurau ffrydio presennol ar gyfer R1A, R1D a R3U i oriau gwrando ar-lein cyfatebol RAJAR.

---

[52] Radiocentre, ymateb i BBC's *New music radio stations: Public Interest Test* consultation, t. 67.
[53] Radiocentre, ymateb i'n penderfyniad dros dro, tt. 5-6.

Mae'r newid hwn yn arwain at gynnydd bach yn yr amcangyfrif o'r gwrando ar y gorsafoedd hyn (gweler ffigur 2).

c) **Amcangyfrif gwyriad oddi wrth gystadleuwyr:** Yn y gwaith modelu ar gyfer ein penderfyniad dros dro, rydym yn defnyddio nifer o bwysoliadau i amcangyfrif y gwyriad cymharol o bob gorsaf, gan gynnwys y cyrhaeddiad a rennir rhwng prif orsaf y BBC a phob un o gystadleuwyr y gorsafoedd arfaethedig. Rydym wedi diweddaru gwerth Smooth 70s a Smooth Soul, sy'n arwain at newid bach iawn i'r amcangyfrif o effaith R2E.

d) **Amcangyfrif yr effaith ariannol:** Rydym wedi addasu proffidioldeb gwrthffeithiol Boom Radio fel ein bod yn cyfrifo maint ei elw blynyddol gan ddefnyddio data refeniw ac elw blynyddol, yn hytrach na chymryd cyfartaledd maint yr elw ar gyfer pob chwarter. Mae hyn yn cael effaith fach ar ein rhagolwg gwrthffeithiol o faint elw Boom Radio.

**Ffigur 1: Rhestr wedi'i diweddaru o orsafoedd sydd wedi'u cynnwys yn y set cystadleuwyr ar gyfer pob gorsaf arfaethedig y BBC (mae gorsafoedd sydd newydd eu cynnwys yn cael eu dangos gyda *)**

| R1D | R1A | R2E | R3U |
|---|---|---|---|
| BBC Radio 1 | BBC Radio 1 | BBC Radio 2 | BBC Radio 3 |
| Capital Network | Absolute Radio 00s | Absolute Radio 60s | Classic FM |
| Capital Dance | Absolute Radio 10s | Absolute Radio 70s | Classic FM Calm |
| Heart Dance | Heart Network | Boom Radio | Magic Classical |
| KISS | Heart 00s | Greatest Hits Radio | |
| KISSTORY | Heart 10s | Gold Network (y DU) | |
| KISS Dance* | KISSTORY | Heart 70s | |
| | Hits Radio | Smooth Radio Network (y DU) | |
| | Virgin Radio Chilled | Smooth 70s | |
| | Capital Anthems | Smooth Soul | |
| | Radio X 00s | Virgin Radio Anthems | |
| | Capital Network* | Magic | |
| | | Mellow Magic | |
| | | Greatest Hit Radio 60s* | |

3.26 O ystyried y newidiadau sy'n cael eu hegluro uchod a'n methodoleg wreiddiol fel sy'n cael ei disgrifio yn atodiad 1 y ddogfen penderfyniad dros dro, mae ein hasesiad terfynol o effaith statig cynigion y BBC fel a ganlyn yn ffigurau 2-5.

**Ffigur 2: Amcangyfrif o'r oriau gwrando cyfartalog bob wythnos, o'i gymharu ag amcangyfrifon y BBC**

| | Amcangyfrifon y BBC | Amcangyfrifon Ofcom: penderfyniad dros dro | Amcangyfrifon Ofcom: penderfyniad terfynol |
|---|---|---|---|
| **R1 Anthems** | 3.5m | 3.0m – 3.4m | 3.0m – 3.4m |
| **R1 Dance** | 4.9m | 4.20m - 4.24m | 4.22m - 4.25m |
| **Estyniad R2** | 18.6m - 22.3m | 13.8m - 20.9m | 13.8m - 20.9m |
| **R3 Unwind** | 1.2m | 3.92m - 3.95m | 3.93m - 3.96m |

**Ffigur 3: Colledion gwrando**

| | Penderfyniad | Bauer | Global | Boom Radio | Rhwydwaith Virgin Radio |
|---|---|---|---|---|---|
| **R1 Anthems** | Terfynol | 0.4% - 0.5% | 0.6% - 0.7% | Amh | 0.2% - 0.3% |
| | *Dros dro* | *0.6% - 0.6%* | *0.5% - 0.5%* | | *0.3% - 0.3%* |
| **R1 Dance** | Terfynol | 0.7% - 0.7% | 0.8% - 0.8% | Amh | Amh |
| | *Dros dro* | *0.6% - 0.6%* | *0.8% - 0.9%* | | |
| **Estyniad R2** | Terfynol | 2.3% - 3.5% | 1.9% - 2.8% | 13.4% - 20.3% | 1.4% - 2.1% |
| | *Dros dro* | *2.2% - 3.3%* | *2.0% - 3.0%* | *14.0% - 21.1%* | *1.5% - 2.2%* |
| **R3 Unwind** | Terfynol | 0.1% - 0.1% | 1.0% - 1.0% | Amh | Amh |
| | *Dros dro* | *0.1% - 0.1%* | *1.0% - 1.0%* | | |

**Ffigur 4: Colledion refeniw**

| | Penderfyniad | Bauer | Global | Boom Radio | Rhwydwaith Virgin Radio |
|---|---|---|---|---|---|
| **R1 Anthems** | Terfynol | 0.4% - 0.5% | 0.6% - 0.7% | Amh | 0.2% - 0.3% |
| | *Dros dro* | *0.6% - 0.6%* | *0.5% - 0.5%* | | *0.3% - 0.3%* |
| **R1 Dance** | Terfynol | 0.7% - 0.7% | 0.8% - 0.8% | Amh | Amh |
| | *Dros dro* | *0.6% - 0.6%* | *0.8% - 0.9%* | | |
| **Estyniad R2** | Terfynol | 2.3% - 3.5% | 1.9% - 2.8% | 13.4% - 20.3% | 1.4% - 2.1% |
| | *Dros dro* | *2.2% - 3.3%* | *2.0% - 3.0%* | *14.0% - 21.1%* | *1.5% - 2.2%* |
| **R3 Unwind** | Terfynol | 0.1% - 0.1% | 1.0% - 1.0% | Amh | Amh |
| | *Dros dro* | *0.1% - 0.1%* | *1.0% - 1.0%* | | |

**Ffigur 5: Canran y golled mewn maint yr elw**

✂

3.27 Fel y gwelir yn ffigyrau 2-5, er gwaethaf y diweddariadau i'n gwaith modelu, fel ychwanegu gorsafoedd masnachol at ein setiau cystadleuwyr a diwygio'r cynnydd a ddefnyddir ar gyfer oriau gwrando ffrydio BBC Sounds, ein barn o hyd yw bod R1A, R1D a R3U yn debygol o gael effaith fach ar weithredwyr masnachol. Rydym yn dal o'r farn y byddai R2X yn debygol o effeithio ar weithredwyr masnachol, yn enwedig y gweithredwr annibynnol Boom Radio.

## Radio 5 Sports Extra

Ymatebion rhanddeiliaid

3.28 Roedd News Broadcasting yn cytuno'n gryf â'n hasesiad o gystadleuaeth ac yn cytuno â'n casgliad y byddai 5SE estynedig yn cael effaith niweidiol sylweddol ar talkSPORT. Fodd

bynnag, roedd o’r farn y byddai 5SE estynedig a’r effaith bosibl ar Rwydwaith talkSPORT yn fwy sylweddol na’n hamcangyfrifon.[54]

3.29 Roedd y BBC yn cefnogi ein dull o amcangyfrif effaith 5SE ar y farchnad, ond awgrymodd y dylem fod wedi asesu’r effaith ar Ddarlledu Newyddion ar lefel grŵp (yn hytrach na chanolbwyntio ar Rwydwaith talkSPORT), o ystyried y gallai effeithiau ar weithgareddau talkSPORT gael effaith ar ei rwydwaith cerddoriaeth neu orsafoedd siarad eraill, ac i’r gwrthwyneb.[55]

3.30 Dywedodd un unigolyn mai talkSPORT 2 yw’r prif gystadleuydd i 5SE, yn hytrach na talkSPORT.[56] Rydym yn deall bod hyn yn groes i ragdybiaeth yr achos sylfaenol sy’n dargyfeirio oriau gwrando o talkSPORT a talkSPORT 2, gan ddefnyddio eu cyfran gymharol o wrando.

*Ein hymateb*

3.31 Rydym yn deall barn News Broadcasting y byddai effaith y newidiadau arfaethedig i 5SE ar Rwydwaith talkSPORT yn fwy na’n hamcangyfrifon. Roeddem wedi edrych ar ddull amgen News Broadcasting o amcangyfrif lefelau gwrando 5SE, sy’n cynnwys mesur cyfanswm y gwrando ar yr holl gynnwys chwaraeon ar y radio rhwng 9am a 7pm, ac ychwanegu’r amcangyfrif o apêl 5SE at y cyfanswm gwrando hwn. Nid ydym yn credu bod hyn yn rhesymol o ystyried y rhesymau a nodir yn atodiad 1 y ddogfen penderfyniad dros dro. Yn fwy cyffredinol, rydym yn nodi bod natur amcangyfrif defnydd yn y dyfodol yn ansicr, ond rydym o’r farn bod ein dull achos sylfaen yn rhesymol ac yn ymarferol. Beth bynnag, ni fyddai defnyddio dull gweithredu News Broadcasting i amcangyfrif y gwrando yn newid y casgliad ein bod yn disgwyl i 5SE effeithio’n sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

3.32 Mewn ymateb i ddadl y BBC, fel y nodir yn y ddogfen penderfyniad dros dro, rydym o’r farn mai’r effaith ar Rwydwaith talkSPORT yw’r un fwyaf perthnasol o ran yr effaith ar gystadleuaeth deg ac effeithiol o ystyried mai Rhwydwaith talkSPORT yw’r unig ddarparwr masnachol o wasanaethau chwaraeon. Er ein bod yn cydnabod ei fod yn rhan o grŵp mwy, rydym o’r farn y byddai’r ystyriaethau deinamig a drafodir yn nes ymlaen yn creu heriau i’r grŵp o ran parhau i fuddsoddi yn ei wasanaethau radio chwaraeon. Rydym hefyd yn nodi bod cyflwyniadau gan randdeiliaid (hy [✂]) yn cefnogi ymhellach ein safbwynt y dylem ganolbwyntio ar yr effaith ar Rwydwaith talkSPORT.[57]

3.33 Rydym yn cydnabod barn un unigolyn mai talkSPORT 2 yw’r prif gystadleuydd i 5SE. Fel sy’n cael ei amlinellu yn atodiad 1 y ddogfen penderfyniad dros dro, fe wnaethom gynnal amrywiaeth o wiriadau sensitifrwydd i brofi a allai newidiadau i ragdybiaethau penodol newid ein casgliadau dros dro ynghylch effaith cynigion y BBC. Fel rhan o’r gwiriadau sensitifrwydd hyn, fe wnaethom brofi senario lle mae mwy o wrando’n cael ei ddargyfeirio oddi wrth talkSPORT 2 (o’i gymharu â talkSPORT), ar sail data sy’n dangos bod cynulleidfa ac amserlen talkSPORT 2 yn debycach i gynulleidfa bresennol a chynnwys ychwanegol arfaethedig 5SE. Nid oedd y gwiriad sensitifrwydd hwn wedi newid ein casgliad dros dro y byddai 5SE yn effeithio'n sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

3.34 O ystyried ein hymatebion i bob un o’r sylwadau hyn gan randdeiliaid, mae ein hamcangyfrifon ar gyfer y cynnydd graddol mewn gwrando ar 5SE ac effeithiau statig

[54] News Broadcasting, ymateb i’n penderfyniad dros dro, t. 4.
[55] Y BBC, ymateb i’n penderfyniad dros dro, t. 9.
[56] Aelod o’r cyhoedd 6, ymateb i’n penderfyniad dros dro.
[57] [✂] ymateb i gais Ofcom am wybodaeth, dyddiedig 13 Ionawr 2025, cwestiwn 3.

newidiadau arfaethedig y BBC i 5SE yn aros yr un fath â'r rheini a nodir yn y ddogfen penderfyniad dros dro. Mae'r rhain i'w gweld eto yn ffigyrau 6 – 7 isod.

**Figur 6: Amcangyfrif o'r oriau gwrando cyfartalog, o'i gymharu ag amcangyfrifon y BBC**

| | Amcangyfrif y BBC | Amcangyfrif Ofcom |
|---|---|---|
| **5 Sports Extra (oriau cynyddrannol)** | 1.6m | 1.5m - 1.7m |

**Figur 7: Canlyniadau dadansoddiad statig 5SE**

| | Effaith ar Rwydwaith talkSPORT |
|---|---|
| **Colledion gwrando** | 4.6% - 5.3% |
| **Colledion refeniw** | 3.7% - 4.4% |
| **Canran y golled mewn maint yr elw** | [✂] |

# Effeithiau deinamig: gorsafoedd cerddoriaeth

## Ein canfyddiad arfaethedig

3.35 Rydym wedi ystyried a allai cynigion y BBC effeithio ar gymhellion gweithredwyr masnachol i arloesi a buddsoddi yn y tymor hwy. Nodwyd bod hyn yn ei hanfod yn anodd ei asesu oherwydd ei bod yn anodd rhagweld sut byddai gweithredwyr masnachol yn ymateb i gynigion y BBC.

3.36 Roeddem o'r farn bod yr effaith ar orlenwi / cymhellion i fuddsoddi gan weithredwyr masnachol yn debygol o fod yn gyfyngedig ar gyfer R1A, R1D a R3U, o ystyried ein bod wedi amcangyfrif y byddai gweithredwyr masnachol yn debygol o golli cyfran fach o refeniw a phroffidioldeb oherwydd y tair gorsaf arfaethedig hyn.

3.37 Roeddem hefyd yn cydnabod y gallai lansio gorsafoedd arfaethedig y BBC, yn unigol ac ar y cyd, gael mwy o effaith ar orsafoedd masnachol penodol sydd â chynnwys tebyg. Er ein bod o'r farn bod ein hachos sylfaenol yn cynrychioli'r canlyniad mwyaf tebygol, mae'n bosibl y gallai'r effaith wirioneddol ar wrando fod yn is yn ymarferol gan ein bod yn gyffredinol wedi mabwysiadu dull ceidwadol sy'n tueddu i oramcangyfrif yr effaith (gweler atodiad 1 y ddogfen penderfyniad dros dro). Beth bynnag, roeddem o'r farn bod yr effaith yn debygol o fod yn fwy cyfyngedig gan fod y gorsafoedd yr effeithir arnynt yn perthyn i grwpiau masnachol sy'n cynhyrchu refeniw yn bennaf ar sail gwrando ar draws eu portffolios cyfan ac mae arwyddion y gallant ymateb yn ddeinamig i'r gorsafoedd hyn er mwyn lliniaru'r effaith niweidiol.

3.38 Roeddem o'r farn y gallai lansio R2E effeithio'n sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol gan y byddai'n arwain at ostyngiad sylweddol mewn gwrando ar weithredwyr

masnachol, yn enwedig y gweithredwr annibynnol Boom Radio.[58] Nodwyd hefyd y gallai o bosibl atal mynediad a lleihau cymhellion buddsoddi i weithredwyr masnachol. Y rheswm am hyn yw y gallai'r gweithredwyr hyn fod yn llai tebygol o fuddsoddi ac ymuno â maes newydd os ydynt yn credu y byddent yn wynebu effaith niweidiol pe bai'r BBC yn lansio gorsaf radio debyg yn nes ymlaen.

## Ymatebion rhanddeiliaid

3.39 Dywedodd y BBC ei fod yn "siomedig" gyda'n dadansoddiad o effeithiau deinamig gan ei fod o'r farn bod y gorsafoedd Bauer a Global sydd newydd gael eu lansio "yn amlwg yn ymateb deinamig i gyhoeddiad y BBC". Roedd hefyd yn dadlau na ddylem gynnwys y gorsafoedd Global a Bauer a lansiwyd yn ddiweddar yn ein dadansoddiad o'r effaith statig ar weithredwyr masnachol gan fod hyn yn mynd yn groes i'n canllawiau ar asesu effaith y newidiadau arfaethedig.[59]

3.40 Fodd bynnag, roedd y BBC yn cytuno â'n dadansoddiad o'r ymatebion deinamig cyfyngedig sydd ar gael i Boom Radio mewn perthynas â'r cynnig R2E.[60]

3.41 Roedd y BBC hefyd wedi dadansoddi data RAJAR Ch1 2025 ar gyfer gorsafoedd newydd Bauer a Global, yn ogystal â Boom Radio. Dywedodd y BBC fod y data RAJAR hwn yn dangos perfformiad cryf ymysg estyniadau brand masnachol a'i fod felly'n nodi "tystiolaeth glir nad oes diffyg cymhellion buddsoddi yn y sector [radio]". Tynnodd y BBC sylw hefyd at sut mae gorsafoedd presennol, fel Boom Radio, wedi cadw'r lefelau gwrando er gwaethaf lansio gorsafoedd newydd.[61]

3.42 Roedd y BBC yn gwrthod y syniad ei fod wedi "symud oddi wrth" gynulleidfaoedd targed ei orsafoedd arfaethedig, yn enwedig bod Radio 2 wedi symud oddi wrth gynulleidfaoedd dros 55 oed a grwpiau C2DE. Awgrymodd hefyd fod ein dadansoddiad o'r effaith ar y farchnad ar gyfer R2E i bob pwrpas yn ddadansoddiad o un chwaraewr annodweddiadol yn y farchnad.[62]

## Ein hymateb

3.43 Nid ydym yn cytuno â'r BBC y dylid eithrio gorsafoedd estyniad newydd Global a Bauer o'n dadansoddiad gwrthffeithiol gan fod ein canllawiau BCA yn ei gwneud yn glir bod ein hasesiad yn edrych tua'r dyfodol.[63] Rydym yn cydnabod y gallai gwasanaethau arfaethedig y BBC gael rhai effeithiau cadarnhaol ar gystadleuaeth, fel cymell gweithredwyr i fuddsoddi mewn gwasanaethau newydd. Er enghraifft, fe wnaethom nodi yn y ddogfen penderfyniad dros dro ei bod yn debygol y gallai rhai o'r gorsafoedd masnachol sydd newydd gael eu lansio fod yn ymatebion cystadleuol i gynigion y BBC i ryw raddau (hy gweithredwyr wedi lansio gorsafoedd tebyg ar ôl i'r BBC gyhoeddi'r cynigion hyn). Fodd

[58] Mae Boom Radio yn orsaf gymharol newydd ac mae wedi gweld cynnydd cyson mewn oriau gwrando (a thwf mewn refeniw a phroffidioldeb cysylltiedig). Ategir hyn gan ein cais ffurfiol am wybodaeth a oedd yn nodi bod refeniw Boom Radio wedi mwy na threblu rhwng 2022 a 2024 (tabl 2.1, ymateb Boom Radio i gais Ofcom am wybodaeth).
[59] Y BBC, ymateb i'n penderfyniad dros dro, tt. 10-11.
[60] Y BBC, ymateb i'n penderfyniad dros dro, t. 11.
[61] Y BBC, ymateb i'n penderfyniad dros dro, tt. 11-12.
[62] Y BBC, ymateb i'n penderfyniad dros dro, t. 9.
[63] Ofcom, *Canllawiau ar gyfer asesu effaith y newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC*, t.28

bynnag, nid yw'n glir faint o'r gorsafoedd hyn sy'n ymatebion cystadleuol i wasanaethau arfaethedig y BBC, oherwydd gallai rhai fod yn rhan o dueddiadau cyffredinol yn y farchnad (er enghraifft, Smooth 80s, Radio X 90s a Classic FM Movies).[64] Mae hyn hefyd yn cael ei gydnabod gan y BBC a ddywedodd yn ei brawf budd y cyhoedd "Rydym o'r farn bod y lansiadau diweddaraf hyn yn cael eu hannog yn bennaf gan gystadleuaeth gynyddol mewn radio masnachol, hy Global yn ymateb i lwyddiannau diweddar Bauer. Mae rhai o'r lansiadau yn y genres y mae'r BBC yn eu targedu gyda'r cynigion hyn, hy Classic FM Calm ac Unwind arfaethedig BBC Radio 3. Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod hyn yn ddigon o dystiolaeth i ddangos ei fod yn ymateb uniongyrchol i gynnig y BBC".[65]

3.44 Fodd bynnag, rydym yn nodi na fyddai cynnwys nac eithrio gorsafoedd newydd Global / Bauer o'n dadansoddiad yn effeithio ar ein casgliadau o'r dadansoddiad statig gan y byddai ond yn arwain at ailddosbarthu ychydig ar yr effaith rhwng y BBC a gweithredwyr masnachol. Rydym hefyd yn nodi nad yw p'un a yw'r gorsafoedd newydd hyn yn ymatebion cadarnhaol ai peidio yn effeithio ar ein casgliadau cyffredinol ar yr effeithiau deinamig. Mae hyn oherwydd y rhesymau canlynol:

a) Rydym o'r farn y byddai lansio R1A, R1D a R3U yn debygol o gael effaith gyfyngedig ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Fel y nodwyd uchod, nid yw'r ffaith y gallai cynigion y BBC fod wedi cyfrannu at rywfaint o fuddsoddiad ychwanegol mewn gwasanaethau newydd a gynigir gan weithredwyr masnachol yn newid y casgliad cyffredinol hwn.
b) Roedd ein dadansoddiad ar gyfer R2E yn dangos y gallai'r cynigion gael effaith negyddol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, sy'n cyd-fynd â dadansoddiad y BBC ei hun. Efallai y gallai rhai adweithiau cystadleuol cadarnhaol ddigwydd oherwydd R2E ond nid ydym yn credu y gallai hyn fod yn drech na'r effaith negyddol yn yr achos hwn. Rydym o'r farn y byddai'r effaith yn arbennig o arwyddocaol i Boom Radio ac y gallai R2E atal mynediad a lleihau cymhellion buddsoddi yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn arbennig o wir gan y gallai'r gweithredwyr hyn fod yn llai tebygol o fuddsoddi ac ymuno â maes newydd os ydynt yn credu y byddent yn wynebu effaith niweidiol pe bai'r BBC yn lansio gorsaf radio debyg yn nes ymlaen.

3.45 O ran dadl y BBC nad yw Radio 2 wedi symud oddi wrth gynulleidfaoedd penodol, rydym yn derbyn datganiad y BBC nad yw ei strategaeth i wasanaethu cynulleidfaoedd penodol wedi newid, hy nid yw wedi symud oddi wrthynt. Codwyd y pwynt hwn gennym yng nghyd-destun y potensial i R2E atal mynediad. Er mwyn egluro, rydym o'r farn y gallai lansio R2E atal mynediad a lleihau cymhellion buddsoddi i weithredwyr masnachol, yn enwedig gorsafoedd radio annibynnol a'r rheini sydd wedi gweld cyfle i wasanaethu cynulleidfaoedd, fel roeddem yn credu bod Boom Radio wedi'i wneud.

3.46 Rydym yn anghytuno â'r BBC bod ein dadansoddiad o'r effaith ar y farchnad ar gyfer R2E yn canolbwyntio ar un chwaraewr annodweddiadol yn y farchnad. Ein rôl ni o dan y cytundeb fframwaith yw asesu i ba raddau y bydd newidiadau'r BBC yn gwthio buddsoddiad masnachol allan wrth edrych tua'r dyfodol.[66] Rydym wedi cynnal ein dadansoddiad, fel y mae ffigur A1 yn dangos, drwy asesu'r effaith ar amrywiaeth o weithredwyr masnachol. Fe wnaethom ganfod effaith sylweddol ar Boom Radio, ond roedd ein casgliad yn seiliedig ar effaith sylweddol R2E ar gymhellion buddsoddi

---

[64] Ofcom, dogfen penderfyniad dros dro, t. 37.
[65] Y BBC, *Gorsafoedd radio cerddoriaeth newydd: Prawf Budd y Cyhoedd*, t 101.
[66] Ofcom, *Canllawiau ar gyfer asesu effaith y newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC*.

ehangach, yn enwedig ar gyfer gweithredwyr radio annibynnol a'r gweithredwyr masnachol eraill hynny sydd wedi dod o hyd i gyfle i wasanaethu cynulleidfaoedd.

## Effeithiau deinamig: Radio 5 Sports Extra

### Ein canfyddiad arfaethedig

3.47 Roeddem o'r farn y byddai ymestyn oriau darlledu 5SE yn debygol o effeithio'n sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol gan y byddai'n arwain at ostyngiad sylweddol yn lefelau gwrando'r unig ddarparwr radio chwaraeon masnachol (Rhwydwaith talkSPORT). Roeddem hefyd o'r farn bod opsiynau talkSPORT i liniaru effaith 5SE yn gyfyngedig. Y rheswm am hyn yw oherwydd mai'r prif ymateb deinamig i wneud gorsaf radio chwaraeon yn fwy deniadol fyddai i wella ei hawliau chwaraeon byw. Roeddem o'r farn ei bod yn annhebygol y byddai talkSPORT yn gallu ymateb fel hyn, o ystyried bod hawliau chwaraeon yn ddrud a'u bod eisoes yn debygol o fod wedi'u cloi mewn contractau tymor hir.

### Ymatebion rhanddeiliaid

3.48 Nid oedd y BBC yn anghytuno â'n dadansoddiad o'r ymatebion deinamig cyfyngedig sydd ar gael i News Broadcasting mewn perthynas â'r cynnig 5SE.[67] Yn yr un modd, cytunodd News Broadcasting y byddai gallu talkSPORT i ymateb yn gyfyngedig.[68]

3.49 Fodd bynnag, dywedodd y BBC nad ydym yn dod i unrhyw gasgliadau cadarnhaol am effaith ei gynigion.[69] Roedd nifer o unigolion hefyd yn dadlau y byddai 5SE estynedig yn dod â mwy o ddewis a chynnwys o ansawdd uchel i'r farchnad radio chwaraeon.[70]

### Ein hymateb

3.50 Nodwn y gallai 5SE estynedig ganiatáu i'r BBC ymateb i gystadleuaeth a chynyddu'r dewis i wrandawyr radio chwaraeon. Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod hyn yn ddigon i liniaru'r effaith negyddol bosibl a nodwyd ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

## Gorsafoedd radio lleol a chymunedol

### Ein canfyddiad arfaethedig

3.51 Fel y nodir yn atodiad 1 y ddogfen penderfyniad dros dro, fe wnaethom nodi'r posibilrwydd y gallai rhywfaint o wrando gael ei ddargyfeirio o orsafoedd radio lleol.[71] Fodd bynnag, roeddem o'r farn y byddai'r effaith ar orsafoedd lleol yn debygol o fod yn gyfyngedig o ystyried eu bod (i) yn unigryw o'i gymharu â gorsafoedd cerddoriaeth

---

[67] Y BBC, ymateb i'n penderfyniad dros dro, t. 11.
[68] News Broadcasting, ymateb i'n penderfyniad dros dro, t. 4.
[69] Y BBC, ymateb i'n penderfyniad dros dro, t. 11.
[70] Geoff Rogers, ymateb i'n penderfyniad dros dro; [✂] ymateb i'n penderfyniad dros dro; Stephen Trevett, ymateb i'n penderfyniad dros dro; Aelod o'r cyhoedd 6, ymateb i'n penderfyniad dros dro.
[71] Mae hyn yn cyfeirio at gyfres hir o orsafoedd radio masnachol dan berchnogaeth annibynnol. Rydym yn ystyried bod 'perchnogaeth annibynnol' yn golygu'r rheini nad ydynt yn eiddo i grwpiau cyfryngau mawr, fel Bauer a Global. Mae enghreifftiau'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, London Music Radio, KMFM, Central FM.

arfaethedig y BBC, a (ii) ein dealltwriaeth mai hysbysebion yn y fan a'r lle yw'r brif ffynhonnell refeniw ar gyfer y rhan fwyaf o orsafoedd lleol, ac nad yw prisiau hysbysebion sy'n cael eu gwerthu yn y fan a'r lle yn uniongyrchol gysylltiedig ag oriau gwrando.

3.52 Roeddem hefyd o'r farn y byddai gorsafoedd arfaethedig y BBC yn annhebygol o effeithio ar orsafoedd radio cymunedol, gan eu bod yn darparu gwasanaeth sydd wedi'i dargedu at y gymuned leol ac sy'n ceisio darparu buddiannau cymdeithasol, ac sydd felly'n wahanol i orsafoedd cerddoriaeth arfaethedig y BBC.

## Ymatebion rhanddeiliaid

3.53 Roedd Radio Lear yn dadlau y byddai cyflwyno R3U yn arwain at gynhyrchu diwylliannol canolog ac yn llesteirio twf gwasanaethau anfasnachol sy'n cael eu harwain gan y gymuned. Roedd yn dadlau y byddai presenoldeb cryf y BBC mewn darlledu celfyddydol yn gwthio gwasanaethau llai ac arloesol allan ar DAB ar raddfa fach (SSDAB). Yn fwy penodol, mae o'r farn y byddai R3U yn dyblygu ac yn tanseilio gwasanaethau fel ei rai ei hun sy'n ceisio sefydlu eu hunain. Dywedodd hefyd nad oes unrhyw fesurau i atal R1A a R1D rhag cysgodi gweithredwyr annibynnol, sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc yn yr un lle.[72]

3.54 Dadleuodd aelod o'r cyhoedd hefyd y byddai gorsafoedd y BBC yn gwthio gwasanaethau SSDAB allan i wneud lle ar gyfer cerddoriaeth ddawns a gwasanaethau radio tebyg eraill (gan wasanaethu poblogaethau mawr mewn mannau fel Manceinion, Llundain a Leeds), oherwydd gostyngiad mewn cynulleidfa a refeniw dilynol.[73]

## Ein hymateb

3.55 Rydym yn dal o'r farn y byddai gorsafoedd arfaethedig y BBC yn debygol o gael effaith gyfyngedig ar orsafoedd radio lleol a chymunedol gan nad yw'r ymatebwyr wedi darparu unrhyw dystiolaeth ychwanegol sy'n gwrthbrofi'r dadansoddiad a nodwyd gennym yn atodiad 1 y ddogfen penderfyniad dros dro.

3.56 Yn benodol, ar gyfer gwasanaethau radio cymunedol, rydym yn mynnu bod yr effaith yn debygol o fod yn isel gan fod y gorsafoedd hyn yn ceisio darparu buddiannau cymdeithasol a manteision cymunedol lle nad yw gofynion cerddoriaeth yn ganolog i gymeriad gwasanaeth radio cymunedol, gyda hyblygrwydd i addasu ei allbwn cerddoriaeth i anghenion newidiol cynulleidfaoedd.[74] Rydym o'r farn bod disgrifiad Radio Lear o'r hyn mae'n ei gynnig yn enghraifft o natur unigryw radio cymunedol, hy dywedodd ei fod "yn bodoli i gefnogi straeon, mynegiant creadigol a deialog ddinesig mewn cymunedau lleol, gyda mandad i adlewyrchu safbwyntiau amrywiol sy'n cael eu tangynrychioli".

[72] Radio Lear, ymateb i'n penderfyniad dros dro, t. 3. Roedd Radio Lear hefyd o'r farn y byddai R1A a R1D yn atgyfnerthu sefyllfa bresennol y BBC, ond rydym yn nodi bod y pwnc hwn y tu allan i gwmpas y broses BCA.
[73] Aelod o'r cyhoedd 3, ymateb i'n penderfyniad dros dro.
[74] Ofcom, *Radio Cymunedol: dull gweithredu yn y dyfodol o ran y Prif Ymrwymiadau*, t. 5.

# Effeithiau ehangach

## Ein canfyddiad arfaethedig

3.57 Roeddem wedi ystyried 'effeithiau ehangach' cynigion y BBC o ran sut gallai gorsafoedd y BBC effeithio ar gadwyn gyflenwi ehangach gweithredwyr masnachol, gan gynnwys asesu nifer o bryderon a godwyd gan randdeiliaid. Nodwyd y pwyntiau canlynol gennym.

a) **Costau cyflwynwyr** – Roeddem o'r farn na fyddai 5SE yn cael llawer o effaith ar gostau cyflwynwyr o ystyried nad yw'r BBC yn bwriadu comisiynu unrhyw raglenni newydd. Dywed hefyd ein bod yn disgwyl na fyddai'r gorsafoedd cerddoriaeth newydd yn cael llawer o effaith, gan fod y cynnwys arfaethedig ar gyfer pob gorsaf wedi dangos nifer cyfyngedig o slotiau ar gyfer sioeau newydd wedi'u harwain gan gyflwynwyr.
b) **Breindaliadau Cerddoriaeth** – Nid ydym yn credu y gallai'r gorsafoedd hyn gael effaith sylweddol ar y sector cerddoriaeth yn sgil taliadau breindaliadau cerddoriaeth is oherwydd (i) yn gyffredinol roeddem yn amcangyfrif colledion gwrando isel ar orsafoedd cerddoriaeth masnachol, gan eithrio R2E (felly byddai unrhyw golled mewn taliadau breindal yn isel) a (ii) mae'r BBC hefyd yn bwriadu comisiynu cynnwys ychwanegol a gallai'r cynnydd cysylltiedig mewn gwariant ar gerddoriaeth wrthbwyso'r effaith negyddol hon.
c) **Hawliau chwaraeon** – Nodwyd na fyddem yn disgwyl i gynnig y BBC effeithio'n sylweddol ar gost ac argaeledd hawliau chwaraeon, gan na fyddai'n golygu cynyddu ei gyllideb hawliau chwaraeon sain na'i oriau darlledu chwaraeon byw.
d) **Amlblecsau DAB ar Raddfa Fach** – Nodwyd na fyddem yn disgwyl i orsafoedd cerddoriaeth y BBC effeithio'n sylweddol ar y gweithredwyr hyn gan nad ydym yn credu y bydd cynigion y BBC yn effeithio'n sylweddol ar eu gallu i gynhyrchu refeniw o orsafoedd radio lleol a chymunedol.
e) **Gwrando ar BBC Sounds** – nodwyd pwynt y BBC y gallai 5SE ei gwneud hi'n haws dod o hyd i gynnwys ar BBC Sounds, ond roeddem yn ansicr i ba raddau y byddai'r cynigion yn cynyddu'r lefelau gwrando ar BBC Sounds mewn gwirionedd. Nid oeddem wedi gweld unrhyw dystiolaeth gref i ddangos y gallai cynigion y BBC effeithio'n sylweddol ar gystadleuwyr radio'r BBC na'r farchnad podlediadau drwy ddenu gwrandawyr gweithredwyr masnachol i BBC Sounds drwy effaith ffenestr y siop neu drawshyrwyddo.

## Ymatebion rhanddeiliaid

3.58 Cawsom ddau ymateb yn ymwneud ag 'effeithiau ehangach' cynigion y BBC ar gadwyn gyflenwi ehangach gweithredwyr masnachol.

3.59 Roedd News Broadcasting yn anghytuno â'n disgwyliad na fyddai cynnig y BBC yn effeithio'n sylweddol ar gost ac argaeledd hawliau chwaraeon. Roedd yn dadlau y byddai newidiadau arfaethedig y BBC i 5SE yn caniatáu iddo neilltuo mwy o oriau o ddadansoddi a thrafod chwaraeon i ddigwyddiadau chwaraeon neu gampau penodol. Roedd News Broadcasting o'r farn y byddai hyn yn gwneud y BBC yn fwy deniadol i ddeiliad hawliau chwaraeon sain, gan ei gwneud yn anoddach iddo herio'r BBC am hawliau chwaraeon.[75]

3.60 Dywedodd un unigolyn fod yr ystyriaethau cystadleuaeth perthnasol ar lefel hawliau chwaraeon, sydd eisoes wedi cael eu caffael gan y BBC a Rhwydwaith talkSPORT, ac nad

[75] News Broadcasting, ymateb i'n penderfyniad dros dro, tt. 4-5.

ein hasesiad cystadleuaeth yw'r lle i asesu tegwch yn y farchnad hawliau chwaraeon.[76] Rydym ar ddeall eu bod o'r farn bod asesiad o'r farchnad hawliau chwaraeon y tu hwnt i gwmpas ein hadolygiad.

## Ein hymateb

3.61 Mewn perthynas â'r ddadl y byddai 5SE estynedig yn effeithio ar gost ac argaeledd hawliau chwaraeon, rydym yn cytuno â'r ddamcaniaeth a nodir gan News Broadcasting, hy y gallai rhoi mwy o sylw i gamp benodol (o ganlyniad i ddadansoddiad sy'n berthnasol i ddarlledu cyn ac ar ôl digwyddiad chwaraeon byw) wneud cynnig y BBC yn fwy deniadol i ddeiliaid hawliau. Fodd bynnag, yn ymarferol rydym yn ansicr o faint yr effaith hon. Er enghraifft, efallai y gallai talkSPORT (rhwydwaith radio chwaraeon amser llawn) liniaru'r effaith hon gan ei fod yn gallu cynnig mwy o oriau darlledu i ddeiliaid hawliau na'r BBC, o ystyried mai dim ond rhwng 9am a 7pm y byddai 5SE estynedig y BBC yn darlledu cynnwys podlediad ychwanegol. Beth bynnag, nodwn na fyddai graddfa'r effaith hon yn newid ein casgliadau ein bod yn disgwyl i 5SE gael effaith negyddol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

3.62 Rydym yn cydnabod barn un unigolyn bod yr ystyriaethau cystadleuaeth perthnasol ar lefel hawliau chwaraeon, a bod hyn y tu allan i gwmpas ein hadolygiad. I egluro, nid ydym wedi dod i gasgliadau ynghylch tegwch yn y farchnad hawliau chwaraeon. Yn hytrach, rydym yn disgwyl i'r effaith negyddol ar lefelau gwrando talkSPORT ddeillio o'r BBC yn denu gwrandawyr oddi wrth talkSPORT at y 5SE estynedig drwy weithredu arlwy radio chwaraeon parhaus a rhagweladwy. O ystyried natur hawliau chwaraeon – sy'n debygol o fod wedi'u cloi mewn contractau tymor hir yn barod – rydym o'r farn ei bod yn annhebygol y byddai talkSPORT yn gallu gwella ei hawliau chwaraeon byw i liniaru'r effaith niweidiol ar ei wrando.

# Casgliadau ar yr effaith ar y farchnad

3.63 Rydym yn dod i'r casgliad y byddai lansio R1A, R1D a R3U yn debygol o gael effaith gyfyngedig ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Rydym o'r farn ei bod yn annhebygol y byddai'r newidiadau hyn yn effeithio'n sylweddol ar gymhellion gweithredwyr masnachol i fuddsoddi ac arloesi gan y byddai'r gorsafoedd hyn yn debygol, yn unigol ac ar y cyd, o gael effaith gyfyngedig ar wrando ar draws eu portffolio cyfan a'u refeniw / proffidioldeb. Rydym hefyd o'r farn y gall gweithredwyr masnachol ymateb yn ymarferol i liniaru effaith bosibl cynigion y BBC.

3.64 Gallai R2E gael llawer mwy o effaith ar weithredwyr masnachol na'r tair gorsaf gerddoriaeth arfaethedig arall gyda'i gilydd. Rydym yn dod i'r casgliad y byddai hyn yn debygol o gael effaith ar weithredwyr masnachol, ac effaith arbennig o sylweddol ar y gweithredwr annibynnol, Boom Radio. Rydym yn amcangyfrif y gallai hyn arwain at ostyngiad o rhwng 13.4% - 20.3% yn yr oriau gwrando. Rydym hefyd yn credu y gallai'r cynnig atal mynediad a lleihau cymhellion buddsoddi ar gyfer gweithredwyr masnachol eraill. Mae'n bosibl y bydd y gweithredwyr hyn yn llai tebygol o fuddsoddi ac ymuno â maes lle mae cyfle iddynt wasanaethu cynulleidfaoedd os ydynt yn credu y byddent yn wynebu effaith negyddol pe bai'r BBC yn lansio gorsaf radio debyg yn nes ymlaen.

[76] Aelod o'r cyhoedd 2, ymateb i'n penderfyniad dros dro, tt. 4-5.

3.65 Rydym wedi dod i'r casgliad y gallai 5SE gael effaith sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol oherwydd yr effaith debygol y byddai'n ei chael ar rwydwaith talkSPORT a'r ddarpariaeth fasnachol o wasanaethau radio chwaraeon. Rydym hefyd o'r farn bod opsiynau Rhwydwaith talkSPORT i liniaru effaith Radio 5 Sports Extra yn gyfyngedig, o ystyried mai'r prif ymateb deinamig i wneud gorsaf radio chwaraeon yn fwy deniadol fyddai gwella ei hawliau chwaraeon byw. Rydym o'r farn ei bod yn annhebygol y byddai talkSPORT yn gallu ymateb fel hyn, o ystyried bod hawliau chwaraeon yn ddrud a'u bod eisoes yn debygol o fod wedi'u cloi mewn contractau tymor hir.

# 4. Penderfyniadau terfynol

4.1 Wrth wneud ein penderfyniadau terfynol, rydym wedi ystyried amcan y BBC o gyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo’r Dibenion Cyhoeddus yn ogystal â’n dyletswyddau perthnasol o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a Siarter a Chytundeb y BBC, gan gynnwys y rheini sy’n ymwneud â diogelu cystadleuaeth a chefnogi darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Rydym hefyd wedi ystyried pa mor bwysig yw hi i’r BBC ymgysylltu â chynulleidfaoedd y mae’n cael trafferth eu cyrraedd, gan gynnwys cynulleidfaoedd iau a C2DE.

4.2 Yn ei ymateb i’r ymgynghoriad, gofynnodd y BBC am well dealltwriaeth o sut rydym wedi asesu a yw gwerth cyhoeddus y newidiadau arfaethedig yn cyfiawnhau’r effaith ar y farchnad. Mae’r fframwaith rydym wedi’i ddefnyddio wedi’i nodi yn adran 5 ein Canllawiau. Fel y nodir yn y canllawiau, yn ogystal â'r Cytundeb, rydym wedi ystyried graddfa a thebygolrwydd gwerth cyhoeddus y cynigion o’i gymharu â graddfa a thebygolrwydd unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth. Mae Adrannau 2 a 3 y ddogfen hon yn rhoi esboniadau ychwanegol o sut rydym wedi asesu a dod i gasgliad ynghylch gwerth cyhoeddus ac effaith y cynigion hyn ar gystadleuaeth.

4.3 Mae’r Canllawiau hefyd yn datgan nad ydym yn disgwyl y bydd hi’n bosibl cymharu ffactorau sy’n ymwneud â gwerth cyhoeddus yn uniongyrchol â ffactorau sy’n ymwneud â risgiau i gystadleuaeth deg ac effeithiol oherwydd y problemau wrth fesur gwerth cyhoeddus. O’r herwydd, rydym wedi defnyddio ein barn drwy ystyried (i) ein dyletswyddau statudol a’n rhwymedigaethau rheoleiddio perthnasol; a (ii) y dystiolaeth sydd ar gael o brawf budd y cyhoedd y BBC, ein dadansoddiad ein hunain a’r wybodaeth / safbwyntiau a gynigir gan randdeiliaid.

## Rydym wedi penderfynu caniatáu i’r BBC lansio Radio 1 Dance, Radio 1 Anthems a Radio 3 Unwind ar DAB+

4.4 Rydym wedi ystyried y pwyntiau a godwyd gan randdeiliaid ynghylch ein penderfyniadau rhagarweiniol cyffredinol yn yr adrannau blaenorol ar werth cyhoeddus ac effaith ar y farchnad.

4.5 Fel y nodir yn adran 2, rydym yn parhau i ystyried y byddai’r gorsafoedd R1D a R1A yn cynnig rhywfaint o werth cyhoeddus. Nod y gorsafoedd arfaethedig yw apelio at gynulleidfaoedd iau a chynulleidfaoedd C2DE sy’n cael llai o werth gan y BBC a chynnwys rhywfaint o elfennau unigryw a nifer o ymrwymiadau clir (hy mewn perthynas â cherddoriaeth y DU a thraciau unigryw). Rydym hefyd yn parhau i ystyried y byddai R3U yn cynnig rhywfaint o werth cyhoeddus, gan gynnig rhai elfennau unigryw yn ogystal â chefnogaeth ar gyfer dysgu anffurfiol.

4.6 Fel y nodir yn adran 3, rydym hefyd yn parhau i ystyried y byddai effaith bosibl R1D, R1A a R3U ar gystadleuaeth yn isel.

4.7 Yn ein barn ni, ar ôl ystyried y dadansoddiad a nodir uchod, byddai graddfa a thebygolrwydd y gwerth cyhoeddus a nodir ar gyfer R1D, R1A a R3U yn cyfiawnhau graddfa a thebygolrwydd yr effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Yn unol â pharagraff 11(1)(b) y Cytundeb, rydym felly’n penderfynu y caiff y BBC fwrw ymlaen â’r newidiadau arfaethedig hynny.

## Rydym wedi penderfynu peidio â chaniatáu i’r BBC lansio Estyniad Radio 2

4.8 Fel y nodir yn adran 2, rydym yn parhau i ystyried y byddai R2E yn cynnig rhywfaint o werth cyhoeddus. Byddai’n targedu gwrandawyr C2DE hŷn, yn darparu cynnwys llafar, gan gynnwys newyddion a rhaglenni dogfen, ac yn defnyddio cynnwys o’r archif a allai ddarparu amrywiaeth ac ansawdd. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, rydym yn parhau i ystyried nad yw’r achos cyffredinol dros natur unigryw’r gwasanaeth hwn yn gryf.

4.9 Fel y nodir yn adran 3, rydym yn parhau i ystyried y gallai R2E effeithio’n sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, yn enwedig ar Boom Radio. Rydym hefyd yn dal o’r farn y gallai R2E o bosibl atal mynediad a lleihau cymhellion buddsoddi i weithredwyr masnachol.

4.10 Yn ein barn ni, ar ôl ystyried y dadansoddiad a nodir uchod, ni fyddai graddfa a thebygolrwydd y gwerth cyhoeddus a nodir ar gyfer R2E yn cyfiawnhau graddfa a thebygolrwydd yr effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Yn unol â pharagraff 11(1)(d) y Cytundeb, rydym felly’n penderfynu na chaiff y BBC fwrw ymlaen â’r newid arfaethedig hwn.

## Rydym wedi penderfynu peidio â chaniatáu i’r BBC fwrw ymlaen â’r newidiadau i 5 Sports Extra

4.11 Fel y nodir yn adran 2, rydym yn dal o’r farn y byddai'r newidiadau i 5 Sports Extra yn cynnig rhywfaint o werth cyhoeddus wrth i'r BBC dynnu sylw cynulleidfa ehangach at gynnwys chwaraeon sy’n bodoli eisoes ac o bosibl eu helpu i ganfod cynnwys chwaraeon arall ar BBC Sounds.

4.12 Fodd bynnag, fel y nodir yn adran 3, rydym yn parhau i ystyried y gallai ehangu 5SE gael effaith niweidiol sylweddol ar Rwydwaith talkSPORT a bod opsiynau talkSPORT i liniaru’r effaith hon yn gyfyngedig.

4.13 Yn ein barn ni, ar ôl ystyried y dadansoddiad a nodir uchod, ni fyddai graddfa a thebygolrwydd y gwerth cyhoeddus a nodir ar gyfer y newidiadau i 5SE yn cyfiawnhau graddfa a thebygolrwydd yr effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Yn unol â pharagraff 11(1)(d) y Cytundeb, rydym felly’n penderfynu na chaiff y BBC fwrw ymlaen â’r newid arfaethedig hwn.

# 5. Ein penderfyniadau ar amodau'r drwydded weithredu

5.1 Mae'r Cytundeb yn creu rhwymedigaethau ar Ofcom i osod amodau Trwydded Weithredu penodol ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU, ac yn rhoi disgresiwn i ni osod rhagor o amodau rheoleiddiol fel sy'n briodol yn ein barn ni er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC, wrth gyflawni Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, wireddu ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus, ac i sicrhau bod cynulleidfaoedd yng ngwledydd y DU yn cael gwasanaeth da.

## Ein safbwynt dros dro

5.2 Roeddem wedi ystyried yr amodau presennol a fyddai'n berthnasol i R1D, R1A a R3U pe baent yn cael eu cymeradwyo – mae'r rhain yn cynnwys y rhwymedigaeth bod yn rhaid i'r BBC "esbonio ei gynlluniau i sicrhau bod pob Gwasanaeth Cyhoeddus yn y DU yn unigryw..." (amod 3.14.1) ac adrodd ar sut y cyflawnodd y cynlluniau hynny (amod 3.16.1). O dan yr amodau hyn, nodwyd y byddem yn disgwyl i'r BBC nodi'n flynyddol sut byddai pob un o'r estyniadau'n unigryw a byddem yn disgwyl iddo adrodd ar ei ddarpariaeth. Byddem yn disgwyl i hyn gynnwys adrodd ar yr amrywiaeth o feysydd y mae wedi'u nodi yn ei Brawf Budd y Cyhoedd, gan gynnwys, er enghraifft, yr amrywiaeth o gerddoriaeth (a sut mae hynny'n cymharu â darparwyr eraill), cerddoriaeth gan artistiaid o'r DU a cherddoriaeth newydd / recordiadau diweddar.

5.3 Roeddem hefyd wedi ystyried a fyddai'n briodol gosod amodau Trwydded Weithredu ychwanegol. Fodd bynnag, o ystyried yr amodau presennol a bod gwrando ar y gorsafoedd arfaethedig yn debygol o fod yn isel, nid oeddem o'r farn y byddai angen cyflwyno amodau ychwanegol. Fe wnaethom egluro y byddem yn cadw'r opsiwn o osod amodau trwydded newydd yn nes ymlaen pe baem yn nodi pryderon am gynlluniau, perfformiad neu ansawdd adroddiadau'r BBC ar y tair gorsaf.

## Ymatebion rhanddeiliaid

5.4 Roedd y BBC yn cytuno â'n safbwynt dros dro i beidio â gosod amodau ychwanegol ar R1D, R1A a R3U y tu hwnt i amodau tryloywder 3.14.1 a 3.16.1. Dywedodd y BBC fod hyn yn gymesur â graddfa'r gwasanaethau mewn perthynas â gwasanaethau sain cyhoeddus eraill y BBC a'u rhwymedigaethau rheoleiddio cyfatebol.[77] Dywedodd y BBC, petai'r gorsafoedd yn cael eu cymeradwyo, byddai adroddiadau'n cael eu cyflwyno arnynt fel rhan o gylch adrodd blynyddol y BBC a byddai'n bwriadu adrodd ar berfformiad y gorsafoedd yn ystod 2025/26 yn erbyn y cynlluniau a nodir yn ei gyflwyniad PIT mewn

[77] Dywedodd mai'r gorsafoedd radio sydd â'r dyletswyddau rheoleiddio mwyaf manwl yw'r rhai mwyaf a'r rhai sydd wedi bodoli ers tro byd, hy Radio 1, Radio 2, Radio 3 a Radio 4. Mae gan orsafoedd fel 1Xtra, 6 Music, 5 Live, ac Asian Network lawer llai o amodau ac maent yn llai manwl. Nid oes gan Radio 4 Extra na 5 Sports Extra unrhyw amodau Trwydded Weithredu ac, fel BBC Sounds, maent yn dod o dan amodau tryloywder Ofcom.

perthynas ag amrywiaeth ac ehangder cerddoriaeth, cerddoriaeth newydd, cerddoriaeth y DU a cherddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig.[78]

5.5 Mynegodd Radiocentre, News Broadcasting ac UK Music i gyd bryderon ynghylch digonolrwydd ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer dal y BBC i gyfrif. Roedd Radiocentre o'r farn nad yw'r gorsafoedd arfaethedig yn unigryw a bod hyn yn ei gwneud hi'n fwy pwysig cyflwyno amodau trwydded weithredu i gyfyngu ar orgyffwrdd â gwasanaethau masnachol presennol ac felly lleihau effeithiau cystadleuol niweidiol. Yn yr un modd, dywedodd News Broadcasting fod amheuon Ofcom am werth cyhoeddus R1D, R1A a R3U yn cynyddu'r angen am amodau. Nododd Radiocentre a News Broadcasting fod Ofcom yn defnyddio cwotâu ar wasanaethau radio eraill y BBC, gan gynnwys ar gyfer newyddion ar orsafoedd digidol yn unig.[79]

5.6 Dywedodd Radiocentre y dylid gosod amodau mewn nifer o feysydd i wella arwahanrwydd, gan gynnwys amodau sy'n ymwneud â bwletinau newyddion rheolaidd a bwletinau estynedig yn ystod oriau brig, sgwrs, cerddoriaeth a lefelau trawshyrwyddo. Dywedodd News Broadcasting y dylid cael amodau clir a mesuradwy ar sail cynigion y BBC ar gyfer pob un o'r gorsafoedd, a dylid cael amodau ychwanegol ar gyfer bwletinau newyddion yn ystod oriau brig. Roedd UK Music o'r farn y dylid cael gofynion ar gyfer cyfrannau o gerddoriaeth newydd a cherddoriaeth o Brydain, yn unol ag amodau prif orsafoedd y BBC, ac i sicrhau nad yw'r BBC yn gwyro oddi wrth gefnogi artistiaid o Brydain a thalent newydd.[80]

5.7 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr unigol a atebodd am amodau'r Drwydded Weithredu yn cytuno â'n safbwynt dros dro.[81] Roedd un ymatebydd yn anghytuno a dywedodd y dylai R1D, R1A a R3U gael amodau ychwanegol i sicrhau nad ydynt yn dyblygu gwasanaethau masnachol yn ormodol.[82]

## Ein hymateb a'n penderfyniadau

5.8 Bwriad trwydded weithredu'r BBC yw sicrhau bod perfformiad y BBC yn cael ei gyflawni. O dan y Siarter a'r Cytundeb, mae'n rhaid i ni osod amodau rydym yn credu sy'n briodol er mwyn mynnu bod y BBC yn cyflawni ei genhadaeth a'i dibenion cyhoeddus, yn sicrhau darpariaeth sy'n cynnig gwasanaethau ac allbwn unigryw, ac yn sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael gwasanaeth da.[83] Nid yw'n ddull o liniaru effeithiau cystadleuaeth, ac rydym wedi'i ystyried ar wahân fel rhan o'r BCA.

5.9 Nod ein dull o osod amodau yn y drwydded yw rhoi hyblygrwydd i'r BBC addasu i newidiadau mewn arferion cyfryngau cynulleidfaoedd a phenderfynu sut mae'n cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus ar draws ei wasanaethau, gan barhau i'w ddal i gyfrif ar yr un pryd. Mae cwotâu yn y Drwydded Weithredu yn un rhan o'r ffordd rydym yn

---

[78] Y BBC, ymateb i'n penderfyniad dros dro, tt. 13-14.
[79] Radiocentre, ymateb i'n penderfyniad dros dro, t. 9; News Broadcasting, ymateb i'n penderfyniad dros dro, tt. 6-7.
[80] Gweler Radiocentre, ymateb i'n penderfyniad dros dro, t. 10 am restr lawn o'r amodau mae'n eu hawgrymu; News Broadcasting, ymateb i'n penderfyniad dros dro, t. 6; ymateb UK Music, t. 3.
[81] Er enghraifft: Aelod o'r cyhoedd 2, ymateb i'n penderfyniad dros dro, t. 5; Aelod o'r cyhoedd 5, ymateb i'n penderfyniad dros dro; J Peter Wilson, ymateb i'n penderfyniad dros dro.
[82] Aelod o'r cyhoedd 1, ymateb i'n penderfyniad dros dro.
[83] Siarter y BBC, paragraff 46(3).

rheoleiddio'r BBC ac maent yn eistedd ochr yn ochr â'n rhaglen fonitro a goruchwylio helaeth,[84] sy'n caniatáu i ni graffu'n gynhwysfawr ar berfformiad y BBC a nodi'n gyflym unrhyw feysydd sy'n peri pryder posibl drwy gydol y flwyddyn.

## Newyddion

5.10 O dan Ddiben Cyhoeddus 1, mae'n rhaid i'r BBC ddarparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas. Wrth i arferion cynulleidfaoedd barhau i ddatblygu, mae angen sicrhau bod y BBC yn gallu darparu allbwn newyddion a materion cyfoes i bob grŵp cynulleidfa, lle maen nhw'n fwyaf tebygol o ddod o hyd iddo, ac mewn ffyrdd sy'n taro tant â nhw. Y BBC yw'r ffynhonnell newyddion sy'n cael ei defnyddio amlaf yn y DU ac mae cynulleidfaoedd yn dal yn gadarnhaol am ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes y BBC yn gyffredinol.[85] Nid ydym wedi nodi pryder penodol ynghylch sut mae'r BBC yn darparu newyddion ar draws ei wasanaethau. Felly, nid ydym yn credu ei bod yn briodol gosod amod trwydded weithredu ar newyddion ar hyn o bryd.

5.11 Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i'r BBC adrodd yn ei adroddiad blynyddol ar ei ymdrechion i wella cyrhaeddiad ei gynnwys newyddion ymysg cynulleidfaoedd iau a C2DE ar draws ei wasanaethau, gan gynnwys ar lwyfannau ar-lein. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro sut mae'r BBC yn darparu newyddion a materion cyfoes i'r grwpiau cynulleidfa hyn, gan gynnwys monitro bodlonrwydd cynulleidfaoedd, ac adrodd ar hyn fel rhan o'n hadroddiad blynyddol. Rydym yn cadw'r opsiwn o gyflwyno amodau newyddion ychwanegol os byddwn yn canfod pryderon am sut mae'r BBC yn darparu newyddion ar draws ei wasanaethau.

## Amodau eraill

5.12 Bydd amodau tryloywder 3.14.1. a 3.16.1 yn sicrhau tryloywder cyhoeddus am gynlluniau a darpariaeth y BBC mewn perthynas â natur unigryw R1D, R3U a R1A, gan ganiatáu i Ofcom a rhanddeiliaid graffu arnynt. Rydym yn cydnabod bod gan Radio 1 a Radio 3 amodau rheoleiddio manylach gan gynnwys cwotâu ond rydym o'r farn bod angen i ni fabwysiadu dull gweithredu cymesur a nodi bod y lefelau gwrando a amcangyfrifir ar gyfer R1D, R3U a R1A yn llawer is nag ar gyfer y prif orsafoedd. Byddwn yn parhau i fonitro sut mae gwasanaethau sain y BBC yn darparu gwerth i gynulleidfaoedd ac yn cyfrannu at ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus fel rhan o'n rhaglen perfformiad ar gyfer y BBC.

5.13 Er ein bod wedi penderfynu peidio â gosod amodau ychwanegol ar hyn o bryd, rydym yn cadw'r opsiwn o gyflwyno amodau newydd os byddwn yn canfod pryderon am berfformiad y BBC neu ansawdd ei adroddiadau.

Crynodeb byr ar lefel uchel yn unig yw'r adran drosolwg yn y ddogfen hon. Mae ein penderfyniadau a'n rhesymeg wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.

---

[84] Mae ein rhaglen fonitro a goruchwylio yn cynnwys ymgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid, ein hymchwil a'n dadansoddiadau ein hunain o'r gynulleidfa, set eang o ffynonellau annibynnol (e.e. RAJAR a BARB) yn ogystal â data ac ymchwil y BBC.

[85] Gweler Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC, 2024 t.11